



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Trefniadau Cydweithredol ar gyfer Rheoli Adnoddau Iechyd Cyhoeddus Lleol – Ymddiriedolaeth **GIG** Iechyd **Cyhoeddus Cymru**

Dyddiad: Hydref 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 348A2017

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru - infoofficer@wao.gov.uk.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith hwn yn cynnwys Gabrielle Smith a David Rees.

Cynnwys

Nid yw trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol yn gweithio mor effeithiol ag y dylent.

Adroddiad cryno

Y system iechyd cyhoeddus yng Nghymru	4
Cwmpas yr archwiliad	6
Prif ganfyddiadau'r archwiliad	7
Y camau nesaf	8

Adroddiad manwl

Mae cydweithrediad effeithiol yng nghyswllt gwaith gwella iechyd yn ddibynnol ar arweinyddiaeth gydsyniol, ond nid oedd hyn i'w weld bob tro	9
Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu trefniadau effeithiol i wneud yn siŵr ei bod yn sicrhau gwerth am arian o'r adnoddau a ddyrennir i dimau cyhoeddus lleol	12
Ceir diffyg deialog ystyrllon rhwng yr Ymddiriedolaeth a thimau iechyd cyhoeddus lleol ynghylch rolau, cyfrifoldebau a blaenoriaethau'r naill a'r llall, ac ni cheir fframwaith cytunedig sy'n trafod pa waith a gyflawnir orau ar y cyd	13
Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddulliau cadarn o ddyrannu nac o newid adnoddau timau iechyd cyhoeddus lleol	17
Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer arfarniadau a chynlluniau datblygiad personol, gall wneud mwy i asesu anghenion timau iechyd cyhoeddus lleol er mwyn cefnogi eu datblygiad proffesiynol a'u cynorthwyo i gamu ymlaen yn eu gyrfa	19
Nid yw'r mecanweithiau ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a thimau iechyd cyhoeddus lleol wedi'u datblygu'n ddigonol	22

Atodiadau

Atodiad 1 – meysydd a swyddogaethau ymarfer iechyd cyhoeddus	26
Atodiad 2 – swyddogaethau statudol Iechyd Cyhoeddus Cymru	27
Atodiad 3 – Iechyd Cyhoeddus Cymru – yr hyn y mae'n ei wneud	28
Atodiad 4 – taflen wybodaeth i gyfranogwyr	29
Atodiad 5 – ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth	31

Adroddiad cryno

Y system iechyd cyhoeddus yng Nghymru

- 1 Diffiniad Cyfadran Iechyd Cyhoeddus y Deyrnas Unedig o iechyd cyhoeddus yw'r 'wyddor neu'r gelfyddyd o hyrwyddo a diogelu iechyd a llesiant, atal salwch ac ymestyn bywyd drwy gyd-ymdrechu fel cymdeithas'¹. Mae'r diffiniad hwn yn golygu bod ystod eang o bobl a sefydliadau'n cyfrannu at ddiogelu a gwella iechyd a llesiant, ac at leihau anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru.
- 2 Gellir rhannu ymarfer iechyd cyhoeddus yn dri maes: gwella iechyd, diogelu iechyd a gofal iechyd. Yn sail i'r meysydd ymarfer hyn, ceir swyddogaethau gwybodaeth iechyd. (Yn **Atodiad 1** ceir disgrifiad byr o'r meysydd ymarfer iechyd cyhoeddus. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y maes gwella iechyd.)
- 3 Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn rhan o waith ehangach i ddiwygio'r GIG yng Nghymru yn 2009. Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu ystod o wasanaethau iechyd cyhoeddus er mwyn diogelu a gwella iechyd a llesiant pobl Cymru. Y mae hefyd yn darparu gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chyngor arbenigol i ystod o randdeiliaid, gan gynnwys sefydliadau'r GIG, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, ar faterion sy'n gysylltiedig â iechyd a llesiant. (Yn **Atodiad 2** nodir pedair swyddogaeth statudol yr Ymddiriedolaeth.)
- 4 Mae gan yr Ymddiriedolaeth rôl allweddol yn y system yn rhinwedd ei statws fel y sefydliad cenedlaethol ar gyfer iechyd cyhoeddus, ac oherwydd y gydnabyddiaeth ohoni fel sefydliad iechyd cyhoeddus rhyngwladol². Mae swyddogaethau eang yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys darparu a rheoli gwasanaethau iechyd cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru, darparu gwybodaeth am wella iechyd i'r cyhoedd a chasglu a dosbarthu gwybodaeth am iechyd. (Yn **Atodiad 3** ceir darlun o ehanger y gwaith a gyflawnir gan yr Ymddiriedolaeth.)
- 5 Arweiniodd diwygiadau'r GIG yn 2009 hefyd at greu saith bwrdd iechyd lleol i fod yn gyfrifol am gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal iechyd ac am hyrwyddo a diogelu iechyd cyhoeddus ar draws ardal ddaearyddol benodol. Roedd y sefydliadau hyn yn cynnwys swyddog i fod yn gyfrifol am iechyd cyhoeddus, y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus (CICwyr). Mae'r Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus (CICwyr) yn gyflogaion ac yn Gyfarwyddwyr Gweithredol yn eu sefydliadau perthynol, a chydau'r sefydliadu hynny maent yn gyd-gyfrifol am iechyd y boblogaeth y maent yn ei gwasanaethu.
- 6 Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu adnoddau iechyd cyhoeddus arbenigol³ ar raddfa leol, genedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys darpariaeth i fyrddau iechyd lleol a'u CICwyr. Bydd pob CIC yn gyfrifol am gyfarwyddo a rheoli gwaith y tîm iechyd cyhoeddus lleol (TICLI) Cafodd TICLlau eu sefydlu'n bennaf oherwydd yr etifeddiaeth hanesyddol, o ran niferoedd a chymysgedd sgiliau staff, wrth gyflawni diwygiadau'r GIG. Ar hyn o bryd, mae TICLlau yn cynnwys ymgynghorwyr ac arbenigwyr iechyd cyhoeddus, ymarferwyr iechyd cyhoeddus a staff gweinyddol. Mae timau'n

¹ www.fph.org.uk

² Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel Public Health England, yn aelod o Gymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol

³ Yng nghyd-destun yr archwiliad hwn, mae a wnelo adnoddau iechyd cyhoeddus arbenigol â'r gweithlu iechyd cyhoeddus arbenigol

amrywio o ran maint, ac mae'r rhan fwyaf o staff y TICLlau wedi'u cyflogi gan yr Ymddiriedolaeth ac yn rhan o'i Chyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant. Mae amryw o TICLlau yn cynnwys staff a ariennir ac a gyflogir gan y bwrdd iechyd.

- 7 Yn 2015-16, defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth 155 o aelodau staff cyfwerth ag amser llawn, sydd gyfwerth â 12% o'i gweithlu iechyd cyhoeddus arbenigol, ar draws y saith TICLI. Roedd y gyllideb ar gyfer yr aelodau hyn o staff, gan gynnwys cyflogau chwech o'r saith Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus y mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol amdanynt, yn creu cyfanswm o £9.26 miliwn neu 9% o gyfanswm cyllideb yr Ymddiriedolaeth.
- 8 Er bod cyflogaethion a Chyfarwyddwyr Gweithredol yn atebol i'w byrddau iechyd perthynol, mae gan yr holl Gyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus gontract anrhydeddus â'r Ymddiriedolaeth i gyfarwyddo a rheoli gwaith y TICLI. Mae'r Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus yn atebol i'r Ymddiriedolaeth am y defnydd a wneir o adnoddau iechyd cyhoeddus arbenigol a ddarperir iddynt. Mae'r Ymddiriedolaeth, yn y cyfamser, yn atebol am sicrhau gwerth am arian o'i holl adnoddau, gan gynnwys y rhai a ddarperir i'r Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus ac a reolir ganddynt. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ei disgrifio ei hun fel sefydliad sy'n gyfoethog o safbwynt proffesiynol^{4,5} felly mae'n rhaid iddi ddangos bod ei hadnoddau'n sicrhau gwelliannau i iechyd a llesiant y boblogaeth.
- 9 Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu'r deallusrwydd, yr wybodaeth a'r sylfaen o dystiolaeth ynghylch iechyd sydd ei angen ar TICLlau i weithredu. Mae'r swyddogaethau hyn a drefnir ac a gyflawnir yn ganolog hefyd yn bwysig er mwyn galluogi'r Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol hwythau. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn darparu gwasanaethau sgrinio a diogelu iechyd a gydgyssylltir yn ganolog i boblogaethau byrddau iechyd lleol; sylwer bod y gwasanaethau hyn y tu hwnt i gwmpas yr archwiliad hwn.
- 10 Un elfen bwysig yw na roddwyd y rôl arweinyddol i unrhyw sefydliad unigol o fewn y system iechyd cyhoeddus. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Ymddiriedolaeth a'r byrddau iechyd, drwy eu Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus, gytuno ar nodau cyffredin ac ar ddull cydweithredol o gyflawni gwaith iechyd cyhoeddus er mwyn gwella iechyd a llesiant y boblogaeth.
- 11 Cafodd gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd cyhoeddus ei chyfleu yn 'Ein Dyfodol Iach'⁶ a 'Chanlyniadau Tecach i Bawb'⁷; a nodai'r cyfeiriad strategol ar gyfer iechyd cyhoeddus hyd 2020. Mae hyn yn golygu bod fframwaith a chanlyniadau cenedlaethol cyffredin wedi'u sefydlu y dylai pawb yn system iechyd cyhoeddus fod yn gweithio
- 12 Mae'r Ymddiriedolaeth yn ddibynnol ar gydweithrediad â byrddau iechyd, yn ogystal ag ystod eang o randdeiliaid eraill i gyflawni ei swyddogaethau fel sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol. Ar ben hynny, mae deddfwriaeth ddiweddar⁸ yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gydweithio naill ai i gefnogi partneriaethau statudol, neu fel aelodau ohonynt. Oherwydd y cymhlethdod posibl yn gysylltiedig â llywodraethu ac atebolrwydd o ran y defnydd o adnoddau i wella iechyd a llesiant y

⁴ Iechyd Cyhoeddus Cymru, [Ein Cynllun Strategol 2016-2019](#), Mawrth 2016

⁵ Iechyd Cyhoeddus Cymru, [Ein Cynllun Strategol 2017-2020](#), Mawrth 2017

⁶ Llywodraeth Cynulliad Cymru, [Ein Dyfodol Iach](#), 2009

⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru, [Canlyniadau Tecach i Bawb](#), 2011

⁸ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; Bil Iechyd Cyhoeddus Cymru

boblogaeth leol, roedd yr Archwilydd Cyffredinol o'r farn ei bod hi'n adeg briodol i asesu effeithiolrwydd trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cydweithredu â Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus, ac ystyried a yw'r trefniadau hynny o gymorth i gyflawni gwaith gwella iechyd ledled Cymru yn fwy cyffredinol.

Cwmpas yr archwiliad

- 13 Canolbwyntia'r archwiliad ar y trefniadau i gyflenwi gwasanaethau gwella iechyd drwy Dimau Iechyd Cyhoeddus Lleol. Cyflenwi gwasanaethau gwella iechyd oedd prif swyddogaeth y rhan fwyaf o'r staff a weithiai yn y timau hynny, yn ôl yr hyn a ddywedwyd wrthym. Canolbwyntia'r archwiliad yn bennaf ar y berthynas rhwng timau cenedlaethol (corfforaethol) yr Ymddiriedolaeth, y Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol a'r Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus. Er ein bod yn cydnabod natur aml-sector gwaith iechyd cyhoeddus, nid oedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar farn awdurdodau lleol neu asiantaethau eraill.
- 14 Nod ein harchwiliad felly oedd creu darlun lefel uchel o'r modd y mae trefniadau cydweithredol cyffredol yr Ymddiriedolaeth â Thimau Iechyd Cyhoeddus Lleol a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus yn gweithio'n ymarferol. Dyma oedd amcanion ein gwaith archwilio:
 - cael dealltwriaeth o'r fframwaith ar gyfer alinio blaenoriaethau ar gyfer darparu gwasanaethau'n lleol er mwyn gwella iechyd a llesiant;
 - ffurfio safbwynt ynghylch effeithiolrwydd gwaith cydweithredol a digonolrwydd trefniadau llywodraethu er mwyn cyflawni amcanion cyffredin ar gyfer iechyd cyhoeddus; a
 - chanfod unrhyw rwystrau a allai atal cydweithrediad effeithiol.
- 15 Er bod yr archwiliad yn canolbwyntio'n bennaf ar y trefniadau sy'n gysylltiedig â gwella iechyd, cyfeirir at waith sy'n gysylltiedig â'r maes diogelu iechyd yn yr adroddiad i ddibenion cymharu. Er na fuom yn asesu'r gwaith a gyflawnwyd gan yr Ymddiriedolaeth na'r Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol, mae'n sicr bod y staff ymroddedig y buom yn cyfarfod â hwy yn cyflawni gwaith da.
- 16 Edrychai'r archwiliad ar drefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cydweithredu. Ni wnaethom asesu'r graddau yr oedd blaenoriaethau'r bwrdd iechyd ar gyfer iechyd cyhoeddus yn gyson â blaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth. Ni wnaethom ychwaith archwilio'r graddau y mae byrddau iechyd yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol i wella iechyd y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu. Ar ben hynny, ni wnaethom archwilio rôl Llywodraeth Cymru wrth bennu'r cyfeiriad, yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth ar berfformiad.
- 17 Buom yn ymweld â phob Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol ac yn siarad ag ymgynghorwyr ac arbenigwyr iechyd cyhoeddus, ymarferwyr iechyd cyhoeddus a staff gweinyddol, gan gynnwys aelodau tîm a gyflogir gan fyrddau iechyd. Buom hefyd yn siarad â'r holl Gyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus, dau Brif Weithredwr byrddau iechyd ac ambell swyddog o fewn yr Ymddiriedolaeth. Buom yn cyfwrdd â mwy na 100 o bobl. Adolygwyd dogfennau perthnasol a luniwyd gan yr Ymddiriedolaeth, y byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru. Yn rhan o'r adroddiad, defnyddir dyfyniadau gan y staff y buom yn cyfwrdd â hwy i ddangos y themâu cryf a oedd yn codi o'r archwiliad.
- 18 Cyflwynir y daflen wybodaeth i gyfranogwyr sy'n nodi cwmpas yr archwiliad yn **Atodiad 4**. Rhannwyd hyn â'r holl dimau cyn cynnal y cyfweiliadau.

- 19 Rydym yn gwerthfawrogi ac yn diolch am gymorth a chydweithrediad staff o'r TICLLau, CICwyr a swyddogion o fewn yr Ymddiriedolaeth a'r byrddau iechyd.

Prif ganfyddiadau'r archwiliad

- 20 Mae'r staff a gyfarfuom yn y TICLLau yn weithwyr proffesiynol ymroddedig sydd yn cyflawni gwaith hanfodol ledled Cymru. Dywedodd llawer o staff wrthym eu bod yn gweld gwerth mewn bod yn rhan o sefydliad iechyd cyhoeddus, er na fynegodd nifer fach ohonynt unrhyw ffafriaeth gref dros hynny, gan mai prin oedd eu hymwneud o ddydd i ddydd â'r Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, roeddent yn ystyried eu bod yn gwasanaethu eu poblogaeth leol. Dyma rai o'r manteision o fod yn rhan o sefydliad cenedlaethol y cyfeiriai aelodau o staff atynt yn fynych:
- elfen o annibyniaeth ar y byrddau iechyd sy'n golygu nad oes rhaid iddynt ymwneud â materion gofal eilaidd;
 - arbenigedd a werthfawrogi gan bartneriaid lleol a'r cyhoedd oherwydd fe'i hystyrir yn wrthrychol; a
 - seilwaith penodol a'r wybodaeth a'r arbenigedd y gellir eu rhannu ledled Cymru.
- 21 O'n cyfarfodydd â'r staff, roedd hi'n amlwg eu bod am weithio o fewn system iechyd cyhoeddus a chanddi weledigaeth gyffredin, a lle mae pawb yn gwybod beth yw eu rôl berthynol o ran gwella iechyd, pa le bynnag y maent yn gweithio. Er mwyn bodloni'r dyheadau hyn, mae angen arweinyddiaeth gydsyniol o fewn system iechyd cyhoeddus, a chanddi flaenoriaethau cyffredin a chydweithrediad cryf rhwng yr Ymddiriedolaeth, CICwyr a TICLLau.
- 22 Fodd bynnag, canfuom yn ein gwaith archwilio nad yw'r trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus yn gweithio mor effeithiol ag y dylent. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
- mae cydweithrediad effeithiol yng nghyswllt gwaith gwella iechyd yn ddibynol ar arweinyddiaeth gydsyniol, ond nid oedd hyn i'w weld bob tro;
 - nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu trefniadau effeithiol i wneud yn siŵr ei bod yn sicrhau gwerth am arian o'r adnoddau a ddyrennir i TICLLau;
 - ceir diffyg deialog ystyrion rhwng yr Ymddiriedolaeth a thimau iechyd cyhoeddus lleol ynghylch rolau, cyfrifoldebau a blaenoriaethau'r naill a'r llall, ac ni cheir fframwaith cytunedig sy'n trafod pa waith a gyflawnir orau ar y cyd;
 - nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddulliau cadarn o ddyrannu neu newid adnoddau TICLLau;
 - er bod yr Ymddiriedolaeth wedi atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer arfarniadau a chynlluniau datblygiad personol, gall wneud mwy i asesu anghenion timau iechyd cyhoeddus lleol er mwyn cefnogi eu datblygiad proffesiynol a'u cynorthwyo i gamu ymlaen yn eu gyrfa; ac
 - nid yw'r mecanweithiau ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a TICLLau wedi'u datblygu'n ddigonol.

Y camau nesaf

- 23 Yn yr adroddiad hwn, nodir sawl gwendid yn y trefniadau cydweithredol cyfredol rhwng yr Ymddiriedolaeth a TICLLau o ran gwaith gwella iechyd, ond nid ddylid ystyried hynny fel beirniadaeth ynghylch gwaith na phroffesiynoldeb y staff. Mae'r materion a nodwyd, fodd bynnag, yn dangos bod angen gwelliannau.
- 24 Rydym yn cydnabod bod a wnelo'r problemau a nodir yn yr adroddiad hwn yn rhannol â materion y mae Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd lleol yn gyfrifol amdanynt, yn ogystal â'r Ymddiriedolaeth. Felly mae'r Archwilydd Cyffredinol o blaid cynnal archwiliad o bob un o'r tair rôl mewn trefniadau iechyd cyhoeddus lleol. Nid ydym felly'n gwneud argymhellion pendant yn yr adroddiad hwn.
- 25 Yn y cyfamser, fodd bynnag, mae'n briodol i'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y gellid cyflwyno gwelliannau i waith cydweithredol, gan gynnwys:
- parhau i weithio gyda byrddau iechyd drwy'r CICwyr i gytuno ar flaenoriaethau iechyd cyhoeddus y mae angen eu cyflawni ar y cyd, gan gynnwys nodi cyfraniadau unigol at gyflawniadau a chytuno ar y dull o fesur canlyniadau ar y cyd, o fonitro'r canlyniadau hynny ac o adrodd amdanynt yn lleol a chenedlaethol;
 - datblygu trefniadau effeithiol i ddangos ei bod yn sicrhau gwerth am arian o'r adnoddau iechyd cyhoeddus arbenigol a ddyrennir i TICLLau;
 - egluro rolau a chyfrifoldebau timau lleol a chenedlaethol yr Ymddiriedolaeth o ran datblygu a chyflawni rhaglenni gwella iechyd;
 - bwrw ymlaen â gwaith i ddatblygu dulliau dibynadwy o ddyrannu adnoddau iechyd cyhoeddus arbenigol i TICLLau a rhandaliad eraill sydd yn trafod ehangder ymarfer iechyd cyhoeddus, gan gynnwys gofal iechyd yn rhan o hynny;
 - cytuno ar fecanweithiau priodol ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a TICLLau;
 - cytuno ar fecanwaith i gynnal trafodaethau cynllunio'r gweithlu ar sail fwy ffurfiol rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r CICwyr;
 - egluro'r gofynion er mwyn i staff sy'n gweithio o fewn TICLLau allu camu ymlaen yn eu gyrfa, gan gynnwys a yw'n rhagofyniad cael gradd ôl-raddedig ym maes iechyd cyhoeddus ai peidio.
 - egluro'r disgwyliadau i staff sy'n gweithio o fewn TICLLau o ran cofrestru'n wirfoddol ar Gofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU, ac a yw'n ofynnol, neu a ddylai fod yn ofynnol, er mwyn cyflawni rolau neilltuol; a
 - chasglu gwybodaeth am anghenion hyfforddi a datblygu'r holl dimau iechyd cyhoeddus lleol er mwyn ymdrin â bylchau mewn sgiliau.
- 26 Mae ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth wedi'i gynnwys yn **Atodiad 5**.

Adroddiad manwl

Mae cydweithrediad effeithiol yng nghyswllt gwaith gwella iechyd yn ddibynnol ar arweinyddiaeth gydsyniol, ond nid oedd hyn i'w weld bob tro.

- 27 Mae'n anochel y ceir tensiynau mewn system iechyd cyhoeddus lle mae blaenoriaethau ac atebolrwydd gwahanol randdeiliaid yn wahanol y naill i'r llall, yn enwedig pan welir hwy o safbwynt cenedlaethol, yn hytrach nag o safbwynt sefydliadol lleol. Er mwyn rheoli tensiynau o fewn systemau, mae angen eglurder ynghylch pwy sy'n arwain y system, pwy sydd â'r awdurdod i wneud penderfyniadau, boed hynny'n lleol neu'n genedlaethol, a phwy sy'n atebol am y penderfyniadau a wneir. Os oes ansicrwydd ynghylch pwy yw'r arweinwyr systemau, gallai hynny achosi ansicrwydd ynghylch blaenoriaethau pa randdeiliaid sydd yn bwysig a sefyllfa lle nad oes neb yn gwybod pwy i'w ddilyn. Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, mae angen i sefydliadau gytuno gyda'i gilydd ar derfynau'r hyn y dylai pawb ei wneud a pham.
- 28 Yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) cyntaf yr Ymddiriedolaeth yn 2014, nodwyd na fu ymdrechion i ddisgrifio'r system iechyd cyhoeddus yn gwbl lwyddiannus, a dywedwyd bod y rhan helaeth o'r perthnasoedd o fewn y system yn aneglur, yn gymhleth ac yn esblygu. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod:
- bod angen cysoni gwahanol safbwyntiau a blaenoriaethau;
 - nad oedd rolau arweinyddol wedi'u diffinio'n glir, a'u bod yn destun dadl;
 - bod dryswch ynghylch atebolrwydd dros weithredu a sicrhau canlyniadau, a bod hynny'n cael ei herio;
 - nad oedd sicrwydd ynghylch trefniadau rheoli perfformiad ar draws y sefydliad, a bod ansicrwydd neu ddadlau ynghylch cyfrifoldebau; ac
 - nad oedd y mecanweithiau ar gyfer alinio blaenoriaethau a chymau gweithredu ar draws sefydliadau yn ddigonol.
- 29 Roedd TICLlau a CICwyr yn gwybod yn glir bod angen i'r system iechyd cyhoeddus gael mecanweithiau effeithiol ar gyfer: arweinyddiaeth, eiriolaeth, gosod safonau, a'r sylfaen o wybodaeth a thystiolaeth ynghylch iechyd. Awgrymwyd nad oedd yr elfennau hyn bob amser yn eu lle i sicrhau cydweithredu effeithiol rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r TICLlau.
- 30 Roedd yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod perthnasoedd â'r CICwyr dan straen, yn enwedig o ran gwella iechyd. Un o'r rhesymau am hyn oedd y dybiaeth nad oedd yr Ymddiriedolaeth 'yn gwneud yr hyn yr oedd byrddau iechyd am iddi ei wneud'. Dywedodd un cyfwelai ei bod hi'n 'teimlo fel bod rheidrwydd i'r byrddau iechyd fod yn fuddiolwyr diolchgar, ond nid yw'r Ymddiriedolaeth fyth yn gofyn beth fyddai'n fuddiol i gefnogi ein hagenda iechyd cyhoeddus leol'. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym ei bod am wneud 'yr hyn na all neb ond ni eu gwneud; dydyn ni ddim am ymddangos fel petaem yn sathru ar draed unrhw un arall'.
- 31 Gwelsom lawer o rethreg ynghylch arweinwyr systemau heb gonsensws clir ynghylch pwy ddylai arwain. Ceir canfyddiad ymhlith rhai CICwyr nad yw'r Ymddiriedolaeth yn eu gweld fel partneriaid cyfartal wrth arwain y system iechyd cyhoeddus. Efallai fod hyn yn rhannol

oherwydd disgrifiad yr Ymddiriedolaeth o'i rôl fel arweinydd yn y ddau CTCl⁹ a gyhoeddodd yn fwyaf diweddar. Yn ôl y disgrifiadau, 'rydym yn arwain y system iechyd cyhoeddus i ddiffinio gwasanaethau effeithiol a chymau â blaenoriaeth' ac, 'mae gan yr Ymddiriedolaeth ran hanfodol i'w chwarae drwy ein harweinyddiaeth ar y system'. Fodd bynnag, pan ofynnwyd pwy oedd yr arweinwyr system, dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym fod gan yr holl bartneriaid sy'n gyfrifol am iechyd cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ran i'w chwarae o ran arwain y system.

- 32 Nid diben yr archwiliad hwn oedd ystyried perthnasoedd, ar wahân i'r berthynas a gynhelir rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r CICwyr er mwyn rheoli adnoddau iechyd y cyhoedd mewn modd cydweithredol. Fodd bynnag, cyfeiriodd y staff sawl gwaith at rôl Llywodraeth Cymru o ran gosod y cyfeiriad, arwain a rheoli perfformiad. Mae TICLLau a CICwyr yn tybio bod gan Lywodraeth Cymru ddisgwyliadau uchel ynghylch gallu uwch arweinwyr i wneud i'r system iechyd cyhoeddus weithio. Roedd llai o sicrwydd, fodd bynnag, ynghylch yr hyn y rhan yr oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Ymddiriedolaeth ei chwarae wrth gyflawni rhaglenni gwella iechyd.
- 33 Yn Offerynnau Statudol yr Ymddiriedolaeth¹⁰ dywedir mai swyddogaethau'r Ymddiriedolaeth yw 'rheoli gwasanaethau iechyd cyhoeddus' yn hytrach na'u harwain. Mae hyn yn codi cwestiwn ynghylch pwy sy'n gyfrifol am arwain y system, yr Ymddiriedolaeth neu'r CICwyr yn eu rôl statudol ym maes iechyd y cyhoedd.
- 34 Er bod rhai'n ystyried yr Ymddiriedolaeth yn gynyddol fel arweinydd y system, yn ôl eraill mae hyn yn gwrthdaro â'r dyletswyddau statudol a osodir ar y CICwyr sydd yn gweithio yn y bwrdd iechyd. Efallai nad yw'n ddymunol pennu un arweinydd system, mae angen mwy o eglurder ynghylch rolau perthynol y gwahanol randdeiliaid o fewn y system.
- 35 Roedd y staff y buom yn siarad â hwy yn ystod yr archwiliad yn aml yn cyfeirio at y dryswch ynghylch arweinyddiaeth a 'phwy sy'n gwneud beth'. Roedd hynny'n amharu ar weithgareddau cydweithredol rhwng yr Ymddiriedolaeth a TICLLau. Ystyriwyd bod hyn yn tansilio'r gallu i ymdrin â heriau anodd fel:
- sicrhau cytundeb ynghylch blaenoriaethau gwella iechyd, yn wyneb gofynion lleol sy'n cystadlu'r naill yn erbyn y llall;
 - sicrhau nad yw'r ffocws ar 'iechyd y boblogaeth' yn cael ei golli wrth i fyrddau iechyd fynd ar drywydd targedau perfformiad gofal eilaidd; a
 - nodi cymhellion neu sancsiynau er mwyn sicrhau bod y system yn gweithio'n wahanol ac osgoi ymdeimlad o inertia ar draws y system.
- 36 Yn aml, byddai TICLLau yn cyfeirio at yr angen am ymddiriedolaeth y naill at y llall er mwyn sicrhau cydweithredu effeithiol, ond dywedodd nifer ambell aelod o staff eu bod yn teimlo bod yr Ymddiriedolaeth am arfer arddull 'gorchymyn a rheoli'. Roedd TICLLau yn hyderus bod modd cydweithredu'n fwy effeithiol o gael:
- 'parodrwydd ac aeddfedrwydd i dderbyn y diffyg eglurder ynghylch ffiniau sefydliadol'; a

⁹ Gweler troednodiadau 4 a 5

¹⁰ [Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru \(Sefydlu\) 2009](#)

- 'system sydd yn llai seiliedig ar bersonoliaeth a lle bydd arweinwyr unigol yn cael cymorth i ollwng gafael (o ran rheolaeth)'.
- 37 Byddai staff yn aml yn trafod y gwrthdaro rhwng rolau a chyfrifoldebau lleol a chenedlaethol. Nid yw TICLLau na CICwyr yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn rhoi'r arweiniad na'r eiriolaeth ar gyfer iechyd cyhoeddus ar raddfa genedlaethol ac ar raddfa Cymru gyfan, wrth iddynt gyflawni'r rolau hyn yn lleol. Roedd rhai CICwyr yn hyderus y dylai fod gan yr Ymddiriedolaeth rôl arweiniol i ddylanwadu ar strategaeth iechyd cyhoeddus cenedlaethol a helpu i fframio'r strategaeth honno, o ystyried ei rôl ym maes ymchwil a gwybodaeth iechyd cyhoeddus. Roeddent hwy a'u timau, ar y llaw arall, mewn sefyllfa well i arwain darpariaeth leol.
- 38 Fodd bynnag, dywedodd yr Ymddiriedolaeth, TICLLau a CICwyr fod yr arweinyddiaeth yn gystadleuol o fewn y system gyfredol o safbwynt ymarfer iechyd cyhoeddus yn gysylltiedig â gwella iechyd. Disgrifiodd un y berthynas fel 'rhieni'n tynnu i wahanol gyfeiriadau'.
- 39 Rydym o'r farn fod angen gwneud mwy i ymgorffori egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus, ac i'r Ymddiriedolaeth a'r TICLLau wneud 'yr hyn na allant ond y naill neu'r llall ei wneud', a chytuno ar y gweithgarwch y mae'r naill a'r llall yn y sefyllfa orau i'w gyflawni. Nodwyd enghreifftiau lle cafwyd llwyddiant gyda hyn ym maes gwella iechyd. Ar raddfa genedlaethol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi dod â'r holl sefydliadau yng Nghymru a chanddynt ran i'w chwarae wrth wella iechyd a llesiant ynghyd drwy Cymru Well Wales¹¹. Mae sawl CIC yn cydnabod y byddai hyn wedi bod y tu hwnt i'w gallu. Ystyriwyd hefyd mai'r Ymddiriedolaeth oedd yn fwyaf galluog i drafod â gwahanol randdeiliaid ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, chysylltu'r adrannau hynny â'i gilydd.
- 40 Canolbwyntio'n bennaf ar y berthynas rhwng TICLLau, CICwyr a chyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant yr Ymddiriedolaeth yr oedd yr archwiliad hwn. Serch hynny, roedd y staff yn awyddus i gyfeirio at agweddau eraill ar gyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth a oedd yn gweithio'n dda a lle'r oedd ansawdd y perthnasoedd gwaith a'r cydweithredu yn well. Cyfeiriodd TICLLau a CICwyr at y perthnasoedd gwaith da â Thîm Diogelu Iechyd yr Ymddiriedolaeth, a dywedodd y staff yr hoffent weld y perthnasoedd hyn yn cael eu hailadrodd yn fwy cyffredinol.
- 41 Mae gan y Tîm Diogelu Iechyd, a gydgyssylltir yn ganolog, bresenoldeb ar raddfa Cymru gyfan yn ogystal â phresenoldeb lleol. Dywedwyd wrthym fod y trefniadau a'r timau wedi hen ennill eu plwyf, a bod gan y timau hynny rolau a chyfrifoldebau clir. Roedd gan lawer o'r timau, ond nid pob un ohonynt, hefyd ymgynghorwyr o'r TICLI a oedd yn cymryd rhan yn y rota ar alwad. Os ceir digwyddiad diogelu iechyd, ceir ymagwedd reoledig a chydgyssylltiedig at y gwaith sydd ei angen. 'Mae pwy sy'n gwneud peth, yn lleol ac yn genedlaethol, yn glir.'
- 42 Yn ogystal â rolau a chyfrifoldebau clir, nododd yr Ymddiriedolaeth, TICLLau a CICwyr nifer o ffactorau eraill a oedd, yn eu tyb hwy, yn creu mwy o gydweithredu cadarnhaol â Thîm Diogelu Iechyd yr Ymddiriedolaeth. Roedd y ffactorau hyn yn cynnwys:
- 'bod strwythurau a threfniadau cydgysylltu da ar waith i sicrhau bod y tîm cenedlaethol a'r byrddau iechyd yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd';

¹¹ www.cymru.nhs.uk

- 'lefel y parch y naill at y llall yn seiliedig ar berthnasoedd sydd wedi'u hen sefydlu ers 20 mlynedd; ceir lefel o hyder y bydd gwasanaethau'n parhau fel ag y gwnaethant o'r blaen'; ac
 - 'mae'r tîm (Diogelu Iechyd) lleol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni, ac yn esbonio'n glir sut mae angen i'r bwrdd iechyd gefnogi swyddogaethau diogelu iechyd'.
- 43 Ar sawl achlysur, cyfeiriwyd at swyddi CIC gwag neu heb eu llenwi, o ystyried y trosiant diweddar a'r CICwyr sydd ar fin ymddeol. Mae'r sefyllfa hon yn creu'r peryglon a ganlyn: (i) colli arweinyddiaeth ym maes iechyd cyhoeddus yn lleol; (ii) dim goruchwyliaeth na rheolaeth ar y TICLI na'r rhaglen waith; a (iii) dim sianel ar gyfer cyfathrebu a chydweithredu â'r Ymddiriedolaeth. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod y peryglon hyn yn cael eu cydnabod yn gynyddol a bod trefniadau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith.

Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu trefniadau effeithiol i wneud yn siŵr ei bod yn sicrhau gwerth am arian o'r adnoddau a ddyrennir i dimau cyhoeddus lleol

- 44 Nid yw yr un sefydliad yn gyfan gwbl gyfrifol am sicrhau bod iechyd a llesiant y boblogaeth yn gwella. Mae'r Ymddiriedolaeth a'r byrddau iechyd yn atebol i Lywodraeth Cymru am gyflawni yn erbyn y canlyniadau a'r dangosyddion a nodir yn Fframwaith Canlyniadau a Chyflawni'r GIG. Nid oedd y trefniadau atebolrwydd hyn o fewn cwmpas yr archwiliad hwn, ond priodolir llwyddiant hefyd i drefniadau cydweithredu effeithiol.
- 45 Mae CICwyr yn dal contractau anrhydeddus â'r Ymddiriedolaeth i'w galluogi i gyfarwyddo, rheoli ac arfarnu staff penodol yr Ymddiriedolaeth sydd wedi'u lleoli o fewn y TICLLau. Roedd ein cyfweiliadau â CICwyr yn cadarnhau nad oedd y cytundebau hyn erioed wedi cael eu hadolygu. Y contractau hyn yw un o'r mecanweithiau y gall CICwyr eu defnyddio i roi cyfrif am y defnydd o adnoddau a ddyrennir i TICLLau. Roedd CICwyr yn cydnabod eu bod yn atebol am y defnydd o adnoddau, ond roedd rhai ohonynt yn pryderu bod yr Ymddiriedolaeth am gyfarwyddo'r defnydd ohonynt.
- 46 Yn seiliedig ar gyfweiliadau â'r Ymddiriedolaeth a'r CICwyr, ni chynhelir cyfarfodydd i drafod sut y caiff adnoddau eu defnyddio i fodloni anghenion yr Ymddiriedolaeth a'r CICwyr. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw ddealltwriaeth o'r modd y defnyddir y cyllid ar gyfer TICLLau i gyflawni blaenoriaethau cyffredin, nac ynghylch a yw'n creu'r budd a fwriedir. Mae'n ddyletswydd ar yr Ymddiriedolaeth i sicrhau ei bod yn darparu adnoddau i TICLLau, a bod ei hadnoddau'n cynnig gwerth am arian am ei bod yn atebol i Lywodraeth Cymru, ac i bobl Cymru, am y cyllid y mae'n ei dderbyn ([gweler paragraff 62 hefyd](#)).
- 47 Mae'r Ymddiriedolaeth yn atgyfnerthu trefniadau atebolrwydd gyda byrddau iechyd lle darperir gwasanaethau mewn partneriaeth. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithio i ffurfioli'r trefniadau hyn drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Nod y Memorandwm yw cyfleu'r trefniadau penodol a'r rheolaeth ar wasanaethau drwy roi diffiniad clir o berthnasoedd a disgwyliadau'r naill ochr a'r llall. Yn y pen draw, bydd y Memorandwm yn trafod yr holl wasanaethau a'r swyddogaethau a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys TICLLau. Gallai'r Memorandwm fodloni ceisiadau CICwyr am eglurder ynghylch pa

adnoddau y gallant ddisgwyl eu derbyn i'w cynorthwyo i gyflawni eu cyfrifoldebau iechyd cyhoeddus.

- 48 Yn rhan o'r gwaith archwilio, buom yn edrych ar y trefniadau a oedd ar waith i fonitro ac adrodd ar gyd-ddarpariaeth gwasanaethau iechyd cyhoeddus lleol. Disgrifiodd TICLLau y trefniadau llywodraethu rhyngddynt hwy a'r Ymddiriedolaeth fel trefniadau 'llac', gan nad oes unrhyw gytundeb clir ynghylch 'pwy sy'n gwneud peth', nac ynghylch sut y bydd gwaith yn cael ei fonitro a'i adrodd gerbron y tîm. Y CIC sy'n atebol am gyflawni cynlluniau gwaith lleol. O'n hymweliadau â thimau lleol, ac o'r dogfennau y buont yn eu rhannu â ni, roedd hi'n glir bod llinellau adrodd yn cychwyn o'r CIC hyd at y Byrddau perthynol, yn hytrach nag o'r Ymddiriedolaeth.
- 49 Yn lleol, roedd gan TICLLau drefniadau amrywiol ar waith i fonitro cynnydd yn erbyn eu cynlluniau gwaith drwy ddefnyddio ystod o gerrig milltir a mesurau perfformiad allweddol. Dywedodd un tîm wrthym ei fod yn symud tuag at fodel rheoli rhaglenni mwy ffurfiol er mwyn datblygu ei gynllun gwaith, fel bod y systemau a'r prosesau priodol ar waith i gefnogi darpariaeth, ac fel bod yr wybodaeth gywir ar gael i fonitro cynnydd a pherfformiad.
- 50 Er bod y trefniadau i fonitro cynlluniau gwaith yn amrywio, dywedodd amryw o'r staff:
- 'mae'n ymddangos nad oes unrhyw oblygiadau os bydd rhywun yn methu cyrraedd cerrig milltir'; a
 - 'nid oes unrhyw atebolrwydd go iawn am yr hyn y mae'r tîm yn ei gyflawni'.

Ceir diffyg deialog ystyrion rhwng yr Ymddiriedolaeth a thimau iechyd cyhoeddus lleol ynghylch rolau, cyfrifoldebau a blaenoriaethau'r naill a'r llall, ac ni cheir fframwaith ffurfiol sy'n trafod pa waith a gyflawnir orau ar y cyd

Ceir diffyg deialog ystyrion ynghylch yr hyn sydd orau i'w gyflawni ar y cyd.

- 51 Yn rhan o'n harchwiliad, buom yn trafod y graddau yr ystyrir bod blaenoriaethau cyffredin ar waith o ran gwaith gwella iechyd lleol a'r trefniadau i ddatblygu cynlluniau gwaith TICLLau i gyflawni'r blaenoriaethau cyffredin. Ni wnaethom archwilio cynnwys na chyflawniad y gwaith. Yr unig beth a oedd o ddiddordeb i ni oedd y trefniadau i hwyluso ac ariannu'r broses cynllunio gwaith.
- 52 Pan gafodd yr Ymddiriedolaeth ei sefydlu'n wreiddiol, roedd swydd y Cyfarwyddwr Gweithredol a chanddo gyfrifoldeb dros wella iechyd yn wag am amryw o fisoedd. Roedd rhai CIC yn ystyried bod hyn wedi amharu ar y trefniadau cyfathrebu cynnar rhwng yr Ymddiriedolaeth, TICLLau a CICwyr. Dywedodd timau wrthym mai prin oedd y trafodaethau os o gwbl â'r Ymddiriedolaeth er mwyn nodi neu gytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwaith iechyd cyhoeddus. Yn lle hynny, dywedodd timau wrthym eu bod wedi 'parhau â'r gwaith a oedd i'w wneud' i gyflawni'n unol â'r blaenoriaethau a'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhan o fframwaith gweithredu blynyddol GIG Cymru.

- 53 Bu cyflwyno fframwaith cynllunio integredig y GIG yn 2014 o gymorth i'r Ymddiriedolaeth ganolbwyntio mwy ar gynllunio¹². Rhoddodd hwb newydd i'r Ymddiriedolaeth gydweithio â'r CICwyr i nodi a chytuno gyda'i gilydd ar nifer fach o flaenoriaethau craidd ym maes iechyd cyhoeddus , y gallai pawb ganolbwyntio arnynt fel 'system gyfan'. Fodd bynnag, ni chawsom hyd i fframwaith a ddisgrifiai: (i) sut y byddai'r blaenoriaethau hyn ym maes iechyd cyhoeddus yn cael eu cyflawni ar y cyd drwy gyfraniadau unigol yr Ymddiriedolaeth a'r TICLLau. a (ii) gweledigaeth gyffredin ynghylch beth yw nodweddion llwyddo, a sut y gallai'r Ymddiriedolaeth a'r TICLLau fonitro ac adrodd ar hyn.
- 54 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gydweithio â CICwyr i atgyfnerthu ac alinio cynlluniau sefydliadol ynghylch materion allweddol ym maes iechyd cyhoeddus . Y nod yw galluogi byrddau iechyd a TICLLau i weithredu mewn modd sy'n ategu'r naill a'r llall yng nghyswllt pob blaenoriaeth. Mae cofnodion cyfarfodydd grŵp cymheiriaid CIC hefyd yn dangos yn glir bod angen trafod nodau a blaenoriaethau cyffredin.
- 55 Er bod TICLLau yn ymwybodol o'r gwaith parhaus i alinio blaenoriaethau iechyd cyhoeddus , roedd TICLLau yn llai hyderus ynghylch y graddau yr oedd pawb yn gweithio tuag at gyflawni'r un nodau. Ystyriai un tîm mai'r Ymddiriedolaeth, yn hytrach na'r system, oedd yn berchen ar y blaenoriaethau, gan ddweud 'Nid yw blaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth bob amser yn gweddu i'n poblogaeth leol'. Byddai'r Ymddiriedolaeth yn rhannu ei CTCI drafft yn rheolaidd â'r byrddau iechyd yn ystod y broses flynyddol o'i ailwampio, a dywedodd TICLLau a CICwyr eu bod yn croesawu hynny. Mae CTCI yr Ymddiriedolaeth yn mapio'r broses o alinio 'blaenoriaethau cyffredin' yn seiliedig ar wybodaeth yn CTCI y byrddau iechyd.
- 56 Nid yw'r diffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau o fewn y system iechyd cyhoeddus wedi helpu yn hyn o beth. Fel y dywedodd rhywun, 'pe bai gennym ni system iechyd cyhoeddus ddi-dor, byddai'r blaenoriaethau o ran iechyd cyhoeddus yr un peth ar draws y saith bwrdd iechyd, a byddem yn gweithio'n unol ag un cynllun gweithredu'.
- 57 Er mwyn i'r system iechyd cyhoeddus lwyddo o safbwynt gwella iechyd, bydd angen gwneud mwy nag alinio'r CICwyr a'u timau â'r Ymddiriedolaeth yn unig. Mae angen cytuno o hyd ar y blaenoriaethau y mae angen i'r ddwy ran hyn o'r system eu cyflawni gyda'i gilydd, yn ogystal â chytuno ar gyfraniadau unigol a mesuriadau llwyddiant i'w monitro ac i adrodd arnynt.
- 58 Dywedodd TICLLau wrthym fod cynlluniau gwaith wedi'u dylunio i ymdrin â blaenoriaethau lleol ym maes iechyd cyhoeddus , sydd wedi'u cyfleu yn CTCI y byrddau iechyd, a chefnogi cyflawni targedau iechyd cyhoeddus a nodwyd yn Fframwaith Canlyniadau a Chyflawni'r GIG.¹³ Bydd TICLLau yn dylunio ac yn gweithredu eu cynlluniau gwaith a'r CICwyr yn cytuno ar gydbwysedd y gwaith. I raddau helaeth, bydd TICLLau yn trefnu eu gwaith ar sail pynciau iechyd cyhoeddus fel rheolaeth ar faco neu themâu fel 'y blynyddoedd cynnar'. Rhoddir gwaith i'r staff yn unol â'u harbenigedd a'u profiad, yn ogystal â'u diddordebau a'u hanghenion datblygu.

¹² Swyddfa Archwilio Cymru, [Adroddiad Archwilio Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru 2014](#), Ionawr 2015

¹³Llywodraeth Cymru, [Fframwaith Canlyniadau'r GIG a Chanllawiau ar Fesur Canlyniadau WHC \(2016\) 023](#), Mawrth 2016

- 59 Dywedodd TICLLau nad yw cynlluniau gwaith lleol fel arfer wedi'u dylunio i gefnogi cyflawni blaenoriaethau CTCl yr Ymddiriedolaeth. Nid yw'r Ymddiriedolaeth na'r TICLLau ychwaith yn cydweithio wrth ddatblygu eu cynlluniau gwaith er mwyn cytuno ar ddulliau o ymdrin â materion cyffredin. Mynegwyd nifer o wahanol safbwyntiau gan gynnwys:
- 'os nad yw wedi'i gynnwys yn y CTCl (CTCl yr Ymddiriedolaeth), ni ddylem ei wneud';
 - 'dylai'r uwch dîm rheoli (ar gyfer y TICLI) alinio ein gwaith yn ôl-weithredol â chynllun yr Ymddiriedolaeth';
 - 'CTCl pwy ydym ni'n ei gyflawni?'; a
 - 'dydyn ni ddim yn gwybod beth mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl i ni ei wneud'.
- 60 Roedd y timau'n hyderus y gallent ddangos, ar gais, sut roedd eu cynllun gwaith yn cefnogi cyflawni CTCl yr Ymddiriedolaeth. Dywedodd un tîm fod CTCl yr Ymddiriedolaeth ddatblygu 'ar lefel mor uchel fel nad oedd modd i chi anghytuno ag ef, ond nad oedd modd gweld y llinyn sy'n ei gysylltu â'r hyn a wneir yn lleol'.
- 61 Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gwybod rhyw lawer am gynnwys rhaglenni gwaith lleol. Dywedodd un tîm 'hyd y ddiweddar, ni ofynnwyd inni erioed am ein cynllun gwaith, nac am yr adnoddau sydd eu hangen i'w gyflawni'. Dywedodd eraill y gofynnwyd iddynt am eu gwaith yn y gorffennol, a bod timau wedi bod yn barod i rannu gwybodaeth, ond bod hynny wedi dod i ben gydag ymadawiad un o Gyfarwyddwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth. Yn dilyn ymdrechion diweddar i gael mwy o wybodaeth, dywedodd yr Ymddiriedolaeth fod rhai CICwyr yn amharod i rannu'r wybodaeth honno. Mae sylwadau'r Ymddiriedolaeth yn gyson â sylwadau rhai CICwyr nad oeddent yn sicr pam bod yr Ymddiriedolaeth eisiau gweld cynlluniau gwaith lleol.
- 62 Ar sail ein cyfweiliadau, ceir barn weddo gyffredin ymhlith TICLLau a CICwyr fod yr Ymddiriedolaeth eisiau cyfarwyddo a rheoli eu gwaith. Fodd bynnag, pan gyflwynwyd y cwestiwn hwn i'r Ymddiriedolaeth, cydnabuwyd mai CICwyr a TICLLau a oedd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion eu poblogaethau lleol ac nad yw'n dymuno 'dweud wrthynt beth i'w wneud'. Roedd rhai staff yn teimlo bod ganddynt 'ddau feistr'.
- 63 Yn ein barn ni, mae'n rhesymol i'r Ymddiriedolaeth fod eisiau cael dealltwriaeth o'r gwaith a gyflawnir gan TICLLau, yn enwedig gan fod yr Ymddiriedolaeth yn atebol am sicrhau gwerth am arian o'r adnoddau y mae'n eu darparu, a bod ganddi ddyletswydd gofal tuag at ei chyflogeion. Yn ogystal â hyn, mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod lefelau'r adnoddau'n briodol ar gyfer cyflawni ymyraethau iechyd cyhoeddus ledled Cymru sydd yn ddiogel ac yn seiliedig ar dystiolaeth.
- 64 Mae'r Ymddiriedolaeth yn ei disgrifio hi ei hun fel sefydliad cyfoethog o safbwynt proffesiynol¹⁴, sydd yn gyson â sylwadau a wnaed gan rai staff o TICLLau. Telir bron hanner (48%) staff yr Ymddiriedolaeth (ac eithrio staff meddygol a deintyddol) ar fand cyflog 6¹⁵.

¹⁴ Gweler troednodiadau 4 a 5

¹⁵ Agenda ar Gyfer Newid yw system cyflogau a graddfeydd y GIG sy'n cynnwys yr holl staff ar wahân i feddygon, deintyddion a rheolwyr ar lefel uchel iawn. Defnyddir naw band yn y system raddio - un yw'r isaf a naw yw'r uchaf. Ceir nifer o bwyntiau cyflog ym mhob band. Mae'r pwynt cyflog

Mae'r wybodaeth sydd ar gael ar gyfer dau fwrdd iechyd yn dangos bod traean y staff yn cael eu talu ar fand cyflog 6 neu uwch. O ystyried y gymysgedd gyfoethog o raddau, a'r posibilrwydd o brinder adnoddau arbenigol ym maes iechyd cyhoeddus fel y disgrifir yn y CTCl, mae angen i'r Ymddiriedolaeth ddeall yr hyn y mae ei staff yn ei wneud, ac a ydynt yn gwneud y pethau cywir ai peidio.

- 65 Ar ben hynny, mae angen i'r Ymddiriedolaeth ddeall natur y gwaith a gyflawnir gan TICLLau yn sail ar gyfer dyrannu adnoddau i gyflenwi gwasanaethau iechyd cyhoeddus lleol. Roedd TICLLau a CICwyr yn ystyried bod gofal iechyd yn elfen bwysig wrth ymarfer iechyd cyhoeddus. O ran trefniadaeth, mae gofal iechyd sydd yn rhan o iechyd cyhoeddus wedi'i gynnwys yng Nghyfarwyddiaeth yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion/Gwasanaeth Gwella 1000 o Fywydau y GIG. Fodd bynnag, dywedwyd bod cefnogaeth genedlaethol gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer yr agwedd hon ar ymarfer 'yn araf ddiplannu'.
- 66 Mae'n amlwg o'n cyfweiliadau fod diffyg eglurder ynghylch sut y dylai'r Ymddiriedolaeth gefnogi'r elfen hon mewn ymarfer iechyd cyhoeddus, a hynny ar raddfa leol a Chymru gyfan. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddarlun llawn o'r gwaith a gyflawnir gan ei staff, felly ni all werthfawrogi'r graddau y mae'n cefnogi byrddau iechyd yn y maes ymarfer hwn, er enghraifft o ran adolygiadau gwasanaeth neu Geisiadau i Ariannu Cleifion Unigol.

Nid yw dogfennau amrywiol sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau mewn gwasanaethau iechyd cyhoeddus yng Nghymru cyfleu'n glir sut y dylai'r Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus gydweithio.

- 67 Er mwyn cydweithio'n effeithiol, mae angen rolau, cyfrifoldebau ac arweinyddiaeth glir o fewn y system iechyd cyhoeddus. Er gwaethaf y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau a nodir yn y ddeddfwriaeth, nid oes un ddogfen swyddogol yn nodi sut y dylai'r Ymddiriedolaeth a'r byrddau iechyd gydweithio i gyflawni eu swyddogaethau iechyd cyhoeddus.
- 68 Ar sail ein cyfweiliadau, nid oes cytundeb cyffredinol ynghylch nodweddion y system nac ynghylch yr hyn y mae cael un system iechyd cyhoeddus yn ei olygu, yn enwedig o ran gwella iechyd. Mae sawl dogfen y buom yn eu harchwilio wedi ceisio sefydlu'r cyd-destun ar gyfer gwaith partneriaeth o fewn y system iechyd cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw'r rhain ond yn rhannol effeithiol, os o gwbl, yn ymarferol.
- 69 Er enghraifft, yn ôl y swydd-ddisgrifiad cyffredinol ar gyfer CICwyr, mae CICwyr yn rhan annatod o wasanaethau iechyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae CICwyr yn gyfrifol am eiriolaeth, arweinyddiaeth a gweithredu ym maes iechyd cyhoeddus, gan weithio gyda'r Ymddiriedolaeth yn rhan o system iechyd cyhoeddus unedig. Byddai'r Ymddiriedolaeth yn cynorthwyo CICwyr i gyflawni eu rolau drwy ddarparu adnoddau iechyd cyhoeddus arbenigol.
- 70 Datblygwyd cytundeb teirochrog rhwng yr Ymddiriedolaeth, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn 2010. Bwriadwyd i'r cytundeb hwn osod seiliau cryf i'r berthynas rhwng y sefydliadau hyn, gan roi disgrifiad clir o'r disgwyliadau a'r cyfrifoldebau ar gyfer cydweithio rhwng

cyntaf ym mand 6 yn dechrau ychydig dros £26,500 a'r pwynt cyflog uchaf ym mand 9 ychydig dros £100,000.

sefydliadau. Un o'r egwyddorion a nodwyd yn y ddogfen yw y byddai gweithgarwch lleol a chenedlaethol yn cael eu hintegreiddio yn y fath fodd fel y byddai'r naill yn cefnogi'r llall ar draws holl feysydd ymarfer iechyd cyhoeddus . Yn ôl fframwaith gweithredu blynyddol 2010-11¹⁶, gosododd y cytundeb hwn seiliau cryf i bob sefydliad gydweithio mewn modd cydfuddiannol i ymdrin â'r heriau o flaen Cymru o ran iechyd cyhoeddus. Nid oes unrhyw dystiolaeth, fodd bynnag, fod y cytundeb hwn wedi cael ei rannu â Byrddau'r byrddau iechyd unigol na'i fod erioed wedi cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben.

- 71 Yn y cyfamser, yng nghytundeb tymor hir (CTH) Llywodraeth Cymru yn 2011 â'r Ymddiriedolaeth, nodwyd y gwasanaethau i'w darparu i randdeiliaid, gan adlewyrchu swyddogaethau statudol yr Ymddiriedolaeth. Mynegwyd yn glir yn y CTH y byddai'r Ymddiriedolaeth yn gweithio mewn partneriaeth â CICwyr yn rhan o system iechyd cyhoeddus. Byddai gan yr Ymddiriedolaeth ran allweddol yn y broses o weithredu cynlluniau cyflawni iechyd cyhoeddus lleol y byrddau iechyd, drwy'r saith TICLLau, ac o gyflawni ystod o wasanaethau a rhaglenni a reolir yn ganolog. Gan mai cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth oedd y CTH, ni fyddai CICwyr wedi gweld y manylion ynddo. Daeth y CTH i ben yn 2014 pan symudodd holl gyrrff y GIG at fframwaith cynllunio tair blynedd integredig.

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddulliau cadarn o ddyrannu na newid adnoddau timau iechyd cyhoeddus lleol

- 72 Er mwyn llwyddo, mae angen gweithlu darbodus ar y system iechyd cyhoeddus, hynny yw, pobl â'r cyfuniad cywir o sgiliau a phrofiad a'r cymwyseddau cywir, a'r rheiny yn y lle cywir.
- 73 Wrth ddiwygio'r GIG yn 2009, yr oedd 19 o TICLLau wedi'u halinio â'r 22 o hen fyrddau iechyd lleol. Roedd y timau hyn yn cynnwys cyfarwyddwr iechyd cyhoeddus a thîm bach o dri ymarferydd iechyd o leiaf, a dreuliai'r rhan fwyaf o'u hamser yn cyflawni rhaglenni hybu iechyd. Cafodd yr 19 o dimau wedyn eu had-drefnu yn saith tîm iechyd cyhoeddus lleol, a oedd yn amrywiol o ran maint.
- 74 Yn 2011, bu'r Ymddiriedolaeth yn adolygu dyraniad adnoddau lleol¹⁷ i atgyfnerthu timau a oedd yn cael eu tanariannu dros amser. Y nod oedd buddsoddi mwy o arian y timau hynny yr ystyriwyd eu bod yn brin o adnoddau, a pheidio lleihau'r timau mwy. Dengys gwybodaeth a gynhrychwyd gan yr Ymddiriedolaeth ar y pryd ei bod wedi ariannu 82 o swyddi CALI ar draws TICLLau o gymharu â'r 155 o staff CALI a oedd mewn swydd yn 2015-16. Er ei bod hi'n glir bod nifer y staff CALI bro wedi dyblu, mae maint y timau'n dal i amrywio.
- 75 Yn ychwanegol at y staff a ariennir gan yr Ymddiriedolaeth, mae rhai TICLLau yn cynnwys nifer fach o staff a ariennir yn rhannol neu'n gyfan gwbl gan amryw o fyrddau iechyd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflogi rhai o'r aelodau staff hyn a ariennir gan y byrddau iechyd, ac maent yn cynrychioli cyfan fechan (3%) o'r staff sy'n gweithio ar draws TICLLau.
- 76 Ceir canfyddiad cyson ymhlith TICLLau a CICwyr fod yr Ymddiriedolaeth yn ehangu ar draul buddsoddiad lleol. Aeth rhai cyfweleion mor bell â disgrifio'r ehangu hwnnw fel proses o 'godi

¹⁶ ¹⁶ Llywodraeth Cymru, [Fframwaith Gweithredu Blynyddol GIG Cymru 2010/11](#), Ionawr 2010

¹⁷ Mae'r rhan fwyaf o'r adnoddau a ddyrennir gan yr Ymddiriedolaeth i TICLLau ar ffurf staff, ac ychydig iawn o gyllid a ddarperir nad yw'n gyllid ar gyfer cyflogau.

ymerodraeth'. Nid yw ein dadansoddiad o wybodaeth am weithlu'r Ymddiriedolaeth yn ategu'r canfyddiad hwn. Dengys yr wybodaeth honno fod gweithlu'r Ymddiriedolaeth wedi cynyddu 15% rhwng 2015-16 a 2016-17¹⁸. Y rhesymau am y cynnydd hwn oedd bod nifer sylweddol o staff yn trosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth o rwydweithiau clinigol y GIG ac o'r gwasanaeth sgrinio retinopathi diabetig a bod gweithwyr wedi'u recriwtio i ddwy o'i chyfarwyddiaethau (Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol a Gweithrediadau a Chyllid). Cafodd llond llaw o staff eu recriwtio i Gyfarwyddiaeth Iechyd Cyhoeddus hyd a Llesiant yr Ymddiriedolaeth.

- 77 Roedd gan y TICLLau safbwyntiau amrywiol ynghylch a oedd gan dimau ddigon o adnoddau. Roedd rhai TICLLau, gan gynnwys y CIC, yn hyderus bod nifer y staff yn 'eithaf agos ati', tra'r oedd eraill yn cwyno nad oedd ganddynt ddigon o adnoddau. Waeth beth fo nifer y staff, roedd TICLLau yn llai hyderus ynghylch a oedd timau'n cynnwys yr ystod o sgiliau yr oedd eu hangen i'r dyfodol, ac 'a oedd yr aelodau cywir o staff yn gwneud y pethau cywir'.
- 78 Nid oedd dogfennau strategol ar gynllunio'r gweithlu ar gyfer Cyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant yr Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth 2016 yn cynnwys unrhyw ofyniad i gynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol iechyd hyd o leiaf 2019. Mae'n amlwg o'n gwaith fod angen o hyd i ddatblygu dull o ddyrannu adnoddau'n effeithiol i TICLLau, gan gynnwys penderfynu ar isafswm yr aelodau staff sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r un gyfres o swyddogaethau.
- 79 Pan fuom yn ymweld â TICLLau yn nhymor yr hydref 2016, gwelsom fod yr Ymddiriedolaeth wedi dechrau adolygu'r modd y dyrennir adnoddau ar draws timau. Roedd TICLLau yn arbennig o awyddus i sicrhau bod unrhyw sail resymegol dros ddyrannu adnoddau lleol yn ystyried ffactorau fel amddifadedd lleol, daearyddiaeth, natur wledig ardaloedd a dwysedd y boblogaeth. Ar ben hynny, roedd rhai'n pryderu y gallai'r Ymddiriedolaeth ystyried ailddyrrannu cyllid o swyddi gwag mewn timau a ddisgrifiwyd fel timau a chanddynt ormod o adnoddau, tuag at y timau hynny yr ystyriwyd eu bod yn brin o adnoddau.
- 80 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dweud ei bod yn dymuno symud i ffwrdd oddi wrth ariannu TICLI yn seiliedig ar fewnbwn neu weithgarwch yn unig, a thuag at gyllid ar gyfer canlyniadau. Mae'n bwriadu datblygu fformiwla neu sail resymegol glir ar gyfer dyrannu adnoddau lleol sydd yn ystyriol o amryw o ffactorau fel amddifadedd.
- 81 Mae'r CICwyr yn dibynnu ar yr Ymddiriedolaeth i gael adnoddau arbenigol i gyflawni eu cyfrifoldebau iechyd cyhoeddus ar draws pob un o'r tri maes ymarfer iechyd cyhoeddus. O'n cyfweiliadau, rodd hi'n glir bod CICwyr am gael mwy o eglurder ynghylch dyrannu adnoddau o'r Ymddiriedolaeth yn gysylltiedig â'r tri maes ymarfer iechyd cyhoeddus.
- 82 Gwelsom nad oedd trafodaethau rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r CICwyr ynghylch nifer y staff yr oedd eu hangen i gyflenwi gwasanaethau iechyd cyhoeddus lleol nac i gefnogi ymarfer iechyd cyhoeddus ehangach yn lleol. Yn lle hynny, cynhelir trafodaethau ad hoc, wrth i swyddi ddod yn wag o fewn y tîm. Mewn timau lle mae'r trosiant yn isel, mae hynny'n golygu bod y cyfleodd i ysgogi trafodaethau ar gynllunio'r gweithlu yn brin.
- 83 Roed rhai TICLLau yn cydnabod bod gormod o weithwyr yn y bandiau cyflog uwch, ac roeddent yn croesawu'r cyfle, wrth i swyddi ddod yn wag, i sefydlu rolau newydd a oedd yn gweddu'n well i natur newidiol eu gwaith, a hefyd i leihau costau cyflog. Pan fyddai timau'n

¹⁸ Gweler troednodyn 5

dymuno recriwtio i rolau newydd, dywedwyd wrthym eu bod yn trafod hynny i ddechrau â'r tîm cyllid. Mae swyddogion cyfathrebu a chanddynt sgiliau marchnata cymdeithasol, dadansoddwyr i gynyddu capasiti dadansoddi lleol a rheolwyr rhaglen i wella'r trefniadau ar gyfer cynllunio a monitro perfformiad y cynllun gwaith lleol ymhlith yr enghreifftiau diweddar o rolau newydd.

- 84 Er eu bod yn cefnogi TICLLau sydd yn ystyried creu rolau newydd, nid yw'r Ymddiriedolaeth o'r farn y dylid ailadrodd y rolau hyn ar draws yr holl dimau. Er enghraifft, mewn perthynas â marchnata cymdeithasol, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu sefydlu tîm Newid Ymddygiad a Gwybodaeth i'r Cyhoedd er mwyn cefnogi gwaith marchnata cymdeithasol a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Gallai hyn gyfrannu cryn dipyn at y sgiliau y mae TICLLau yn chwilio amdanynt, ar yr amod bod digon o gapasiti ac eglurder ynghylch sut y bydd y tîm Newid Ymddygiad a Gwybodaeth i'r Cyhoedd yn cefnogi TICLLau. Roedd un CIC yn croesawu'r ychwanegiad hwn, ond rhoddodd air o rybudd, gan ddweud nad yw tîm cyfathrebu canolog yr Ymddiriedolaeth bob amser yn ymateb i anghenion TICLLau. Yn yr un modd, gallai'r Ymddiriedolaeth a'r CICwyr archwilio cyfleoedd i TICLLau gynnal swyddi ar gyfer gwaith a gyflawnir ar draws Cymru.

Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer arfarniadau a chynlluniau datblygiad personol, gall wneud mwy i asesu anghenion timau iechyd cyhoeddus lleol er mwyn cefnogi eu datblygiad proffesiynol a'u cynorthwyo i gamu ymlaen yn eu gyrfa

- 85 Yn rhan o'r archwiliad, buom yn archwilio'r modd y mae'r Ymddiriedolaeth a'r TICLLau yn cydweithio mewn perthynas ag arfarnu, hyfforddi a datblygu'r staff. Roeddem o'r farn fod hyn yn bwysig er mwyn sicrhau cydweithio effeithiol rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r TICLLau.

Mae trefniadau ar waith i gefnogi cofrestrïadau proffesiynol, ond mae angen mwy o eglurder ynghylch sut i ddefnyddio hyn i ddangos cymhwysedd proffesiynol ac i gamu ymlaen mewn gyrfa.

- 86 Cofrestr wirfoddol wedi'i hachredu gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol yw'r UKPHR. Fe'i sefydlwyd yn 2003 i reoleiddio'r holl arbenigwyr ac ymarferwyr amlddisgyblaeth ym maes iechyd cyhoeddus a ddeuai o gefndiroedd eraill ar wahân i feddygaeth a deintyddiaeth. Yn 2011, dechreuodd UKPHR reoleiddio ymarferwyr iechyd cyhoeddus¹⁹. Bwriedir i gofrestrïad ar UKPHR ddangos bod arbenigwyr ac ymarferwyr ym maes iechyd cyhoeddus wedi cyrraedd safonau cymhwysedd priodol, a rhoi cydnabyddiaeth a statws fel aelod o'r gweithlu iechyd cyhoeddus.

¹⁹ Ceir pedwar llwybr tuag at gofrestrïad arbenigol sy'n galluogi staff i weithio fel meddygon ymgynghorol: y llwybr safonol (cwblhau rhgalen hyfforddi pum mlynedd ym maes iechyd cyhoeddus), asesu arbenigwyr diffiniedig (llwybr portffolio), cofrestrïad dwbl (i'r rhai sydd eisoes ar gofrestr Arbenigol y Cyngor Meddygol Cyffredinol neu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol) a chydabyddiaeth o statws arbenigol (eithriadoldeb). Caiff ymarferwyr iechyd cyhoeddus eu tynnu o gefndiroedd amlddisgyblaeth gan ddod ag ystod o arbenigedd i'w rolau a'u gwaith ar draws holl ystod ymarfer iechyd cyhoeddus. Caiff ymarferwyr eu cofrestru drwy llwybr portffolio.

- 87 Mae gan yr Ymddiriedolaeth Dîm Datblygiad Proffesiynol sy'n cefnogi datblygiad y gweithlu a datblygiad proffesiynol yn genedlaethol ar draws yr holl sector iechyd cyhoeddus, gan gynnwys y GIG yng Nghymru, llywodraeth leol, y trydydd sector, sefydliadau academaidd a Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnal y cynllun asesu lleol ar gyfer yr holl ymarferwyr iechyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cynorthwyo unigolion i weithio ar draws sector iechyd cyhoeddus i ddatblygu portffolios o dystiolaeth yn erbyn Safonau Ymarferwyr UKPHR ac i wneud cais i ymgofrestru.
- 88 Mae'r Ymddiriedolaeth a'r CICwyr yn cefnogi staff sydd am ddatblygu portffolios o dystiolaeth, ac ar adeg ein gwaith archwilio, roedd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal digwyddiadau rhagarweiniol ynglŷn â'r broses. Nododd yr Ymddiriedolaeth mai ychydig o blith y staff a ddechreuai bortffolio o dystiolaeth oedd yn cwblhau'r broses honno, tra'r oedd rhai aelodau o staff yn teimlo eu bod yn cael eu 'gwithio ar hyd y llwybr portffolio'. Disgrifiai TICLLau y broses fel proses 'anodd a llafurus' a phroses lle'r oedd yn rhaid iddynt 'gadw eu cymhelliant'. Disgwylir i ymarferwyr gwblhau'r broses cyn pen 12 mis. Un fantais datblygu portffolio o dystiolaeth yn ôl rhai aelodau o staff oedd y cyfle i gydweithio a chydweithwyr mewn timau eraill.
- 89 Nododd y staff y byddent yn croesawu arweiniad oddi wrth yr Ymddiriedolaeth yn nodi'r cymhwysedd isaf sydd ei angen i weithio fel ymarferydd iechyd cyhoeddus gan 'had yw pawb yn dymuno dilyn y llwybr portffolio i gofrestru gyda UKPHR'. Ni welsom unrhyw gymhellion amlwg i'r staff gwblhau'r broses a chofrestru gyda UKPHR. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth egluro ei disgwyliadau o ran cofrestru'n wirfoddol gyda UKPHR, ac a yw hynny'n ofynnol, neu a ddylai hynny fod yn ofynnol, er mwyn cyflawni rolau neilltuol.
- 90 Yn CTCl yr Ymddiriedolaeth yn 2016, nodwyd y byddai'n asesu'r gofyniad i ariannu cyrsiau gradd i ôl-raddedigion ym maes iechyd cyhoeddus er mwyn sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd cyhoeddus yr wybodaeth ddamcaniaethol angenrheidiol. Fodd bynnag, roedd y staff yn ansicr a oedd angen y radd uwch hon er mwyn camu ymlaen yn eu gyrfa. Dywedodd y staff wrthym fod gradd uwch mewn iechyd cyhoeddus yn arfer cael ei hystyried fel porth tuag at rolau uwch, ond roedd hynny'n llai gwir bellach gan fod llai o arian ar gael i ariannu'r cyrsiau hynny. Mewn hysbysebion diweddar ar gyfer swyddi uwch, nodwyd bod cymwysterau ôl-raddedig ym maes iechyd cyhoeddus, neu gyfwerth, yn ofynnol. Fodd bynnag, ni cheir cyfeiriad amlwg bod cofrestru gyda UKPHR yn ddymunol neu'n hanfodol ar gyfer y swydd.

Mae trefniadau newydd yn helpu i atgyfnerthu prosesau arfarnu a chynlluniau datblygu personol, ond mae angen gwneud mwy i asesu holl anghenion datblygu timau iechyd cyhoeddus lleol gyda'i gilydd.

- 91 Yn 2016, gweithredodd yr Ymddiriedolaeth broses arfarnu ac adolygu perfformiad a datblygiad (APD) o'r enw Fy Nghyfraniad. Mae'r polisi'n berthnasol i'r holl staff, ar wahân i staff meddygol a deintyddol sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol neu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol sy'n cymryd rhan mewn proses arfarnu ar wahân. Daeth cylch llawn cyntaf y broses i ben ddiwedd mis Mawrth 2017. Roedd TICLLau y gadarnhaol ynghylch y broses newydd gan ddisgrifio'r broses arfarnu ac APD flaenorol yn 'anghyson'. Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd staff yn cymryd rhan mewn adolygiadau perfformiad canol blwyddyn, ac roedd yr Ymddiriedolaeth yn gofyn am wybodaeth ynghylch lefelau cydymffurfio â'r broses. Yn ôl y

staff, dim ond yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf y mae'r Ymddiriedolaeth wedi ceisio gwybodaeth am gydymffurfio â'r broses arfarnu.

- 92 Nododd rhai aelodau o staff a chanddynt gyfrifoldebau rheolwr llinell yn y TICLLau eu bod yn defnyddio'r Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn sail er mwyn cytuno ar gynlluniau datblygu personol ar gyfer staff anymgynghorol. Fodd bynnag, dywedodd staff o'r holl dimau wrthym nad oedd neb erioed wedi gofyn iddynt rannu eu hamcanion personol na'u cynlluniau datblygu unigol â'r Ymddiriedolaeth. Golyga hyn na all yr Ymddiriedolaeth ffurfio safbwynt gwrthrychol ynghylch anghenion hyfforddi a datblygu ei staff er mwyn datblygu eu gyrfa ac ymdrin â bylchau mewn capasiti a gallu ar draws TICLLau. Yn wahanol i'w cydweithwyr, adroddodd staff ymgynghorol o fewn y TICLLau eu bod yn rhannu adolygiadau perfformiad a datblygiad a chynlluniau swydd â Chyfarwyddwr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus/Cyfarwyddwr Meddygol.
- 93 Er bod arfarniadau beirniadol a dehongli data yn gymwyseddau creiddiol i arbenigwyr ym maes iechyd cyhoeddus, roedd rhai aelodau o staff yn cwestiynu a oedd gan dimau ddigon o arbenigedd neu brofiad i ddefnyddio'r sgiliau hynny'n sail wrth ymarfer. Disgrifiodd aelodau eraill o staff natur newidiol eu gwaith a'r canfyddiad bod angen sgiliau newydd, fel marchnata cymdeithasol. Bwriadwyd i gynlluniau hyfforddi a datblygu mewn timau lleol ymdrin â'r bylchau tybiedig mewn sgiliau, ond nid oedd unrhyw fecanweithiau i helpu timau gydweithio ar anghenion hyfforddi a datblygu cyffredin.
- 94 Yn hytrach, caiff anghenion hyfforddi a datblygu eu rheoli eu cydgysylltu gan dimau unigol. Fel arfer, ymgynghorydd iechyd cyhoeddus, neu brif ymarferydd fydd yn cymryd cyfrifoldeb dros ddylunio rhaglen hyfforddi a datblygu'r tîm. Roedd un tîm yn bwriadu cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddi er mwyn sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn briodol ac wedi'u targedu. Bydd TICLLau yn gofyn am gymorth gan dîm Pobl a Datblygu Trefniadol yr Ymddiriedolaeth os oes angen, neu'n gwadd cydweithwyr o dimau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth i gyflwyno eu gwaith neu ddarparu hyfforddiant.
- 95 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi buddsoddi'n helaeth yn ei allu arweinyddol a rheolaethol ar ôl canfod gwendidau yn natblygiad ei reolwyr sawl blwyddyn yn ôl²⁰. Dywedodd nifer o staff ar draws TICLLau wrthym y gallent gymryd rhan yn y rhaglen hyfforddi datblygu arweinwyr a rheolwyr yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn ei chynnal, os oeddent yn dymuno. Roedd gan yr aelodau o staff a gymerodd ran yn y rhaglen farn gadarnhaol ynglŷn â'r profiad.
- 96 Fodd bynnag, gwelsom fod y cyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff gweinyddol yn amrywio'n fawr, yn dibynnu ar y tîm lleol. Teimlai'r staff gweinyddol eu bod wedi'u 'cau i mewn' ac y gallent 'wneud llawer mwy i gefnogi'r agenda iechyd cyhoeddus yn lleol'. Mae'r aelodau hyn o staff hefyd yn gweld byrddau iechyd lleol yn gweithredu prentisiaethau gweinyddol ac yn teimlo y gallai'r Ymddiriedolaeth ystyried cynlluniau tebyg i gefnogi datblygiad eu gyrfa hwythau.
- 97 Roedd gan weithwyr a recriwtiwyd yn ddiweddar i TICLLau, a oedd wedi ymuno â'r Ymddiriedolaeth o dimau iechyd cyhoeddus lleol yn Lloegr, farn gadarnhaol ynghylch y system iechyd cyhoeddus yng Nghymru, o gymharu â'u profiad yn Lloegr. Gwelwyd bod y system yng

²⁰ Swyddfa Archwilio Cymru, [Adroddiad Archwilio Blynyddol 2015 Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ionawr 2016](#)

Nghymru'n cynnig mwy o gyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol a gyrfaol, a hynny i raddau helaeth gan fod modd i staff yr Ymddiriedolaeth weithio ar raddfa Cymru gyfan neu'n lleol o fewn TICLLau.

- 98 Roedd y staff yn cydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb personol i gynnal cymhwysedd a pherfformiad proffesiynol, ond adroddwyd ei bod hi'n aml yn anodd canfod cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith, fel cysgodi cydweithwyr eu secondiadau i dimau eraill. Nid oes unrhyw gyfleoedd cysgodi na chapasiti gwirioneddol i gylchdroi drwy TICLLau eraill na thrwy dimau cenedlaethol yr Ymddiriedolaeth.
- 99 Nid yw secondiadau llai na blwyddyn o hyd yn ddeniadol i'r staff, yn enwedig oherwydd yr amser y mae'n ei gymryd i lenwi'r swydd a adewir ar ôl. Teimlai'r staff nad oedd yr Ymddiriedolaeth yn gwerthfawrogi'r effaith ar gynlluniau gwaith timau, a'r risg i'r cynlluniau hynny, pe bai unigolion yn manteisio ar secondiad. Roedd aelodau eraill o staff yn ystyried bod secondiadau'n ffordd o gysylltu'r TICLLau â thimau cenedlaethol yr Ymddiriedolaeth.
- 100 Yn CTCI yr Ymddiriedolaeth yn 2016, amlygwyd ei bwriad i gynyddu'r cydweithredu a'r ymgysylltu rhwng yr holl gyfarwyddiaethau, is-adrannau a TICLLau drwy roi cyfleoedd i'r staff weithio ar draws gwahanol feysydd. Yn ein cyfweiliadau gwelsom nad oes unrhyw ffordd hawdd i'r Ymddiriedolaeth wneud hyn, nac i ddenu arbenigedd o'r TICLLau. Roeddem yn pryderu wrth glywed y gwrthodwyd cyfle i sawl unigolyn mewn TICLLau weithio gyda thimau cenedlaethol yr Ymddiriedolaeth. Ymhlith y rhesymau a awgrymwyd oedd y ffaith na wnaeth yr Ymddiriedolaeth gynnwys y CIC wrth gysylltu â'r staff i ddechrau, diffyg eglurder ynghylch yr ymrwymiad amser tebygol a dim trefniadau i lenwi'r swydd oedd yn cael ei gadael ar ôl. Yn rhan o'i threfniadau i gynyddu trefniadau cydweithredol rhwng timau, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth gysylltu â CICwyr i weld a yw'r trefniadau hynny'n gweddu i'r unigolyn dan sylw o ran ei anghenion datblygu, a hefyd i anghenion y TICLLau a'i raglen waith.

Nid yw'r mecanweithiau ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a thimau iechyd cyhoeddus lleol wedi'u datblygu'n ddigonol

- 101 Er mwyn cydweithredu'n effeithiol mae angen sianelau cyfathrebu clir y bydd gwybodaeth yn llifo drwyddynt, fel rhaglenni gwaith lleol a chenedlaethol neu dystiolaeth yn sail i wasanaethau iechyd cyhoeddus lleol, â'r rheiny mewn fformat cytunedig a hawdd ei ddefnyddio. Dylai'r wybodaeth ychwanegu gwerth a bod wedi'i chyfeirio at y rhai sydd ei hangen.
- 102 Yn ddamcaniaethol, dylai fod yn hawdd i'r Ymddiriedolaeth rannu gwybodaeth â TICLLau gan fod y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant, y mae'r TICLLau yn rhan ohoni, yn cynnwys y gwasanaeth Arsyllfa, Llyfrgelloedd a Gwybodaeth a'r timau sy'n gyfrifol am holl raglenni gwella iechyd Cymru. Yn ein cyfweiliadau â TICLLau, nodwyd nad oes unrhyw ddull safonedig o rannu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda, a'r hyn yr oedd gwahanol gyfranwyr yn ei wneud ar raddfa leol a chenedlaethol.
- 103 Heblaw am fwletin staff yr Ymddiriedolaeth, nid oedd unrhyw sianelau cyfathrebu rheolaidd rhwng yr Ymddiriedolaeth a TICLLau o ran cyflenwi gwasanaethau iechyd cyhoeddus lleol er mwyn gwella iechyd. Soniwyd wrthym am enghreifftiau o arferion da wrth gyfathrebu a rhannu gwybodaeth ynghylch imiwneiddio, lle ceir trefniadau cyfathrebu effeithiol a rheolaidd rhwng

Llywodraeth Cymru, yr Ymddiriedolaeth, TICLLau a chydgysylltwyr imiwneiddio'r byrddau iechyd.

- 104 Ar sail ein cyfweiliadau, nid oes unrhyw fecanwaith i gydgyssylltu gwaith a gyflawnir gan dimau cenedlaethol yr Ymddiriedolaeth a TICLLau, na gwaith a gyflawnir rhwng y naill TICLI a'r llall. Cyfeiriwyd at enghraifft lle'r oedd tîm lleol a oedd yn gweithio ar gamddefnyddio sylweddau wedi darganfod ei fod yn gwneud yr un gwaith ar yr un testun ac ar yr un pryd ag un o dimau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth, gan olygu bod ymdrech ac amser yn cael ei wastraffu. Cyfeiriodd TICLLau hefyd at ddiffyg eglurder o du'r Ymddiriedolaeth ynghylch pa ymgyrchoedd iechyd yr oedd yn bwriadu eu cefnogi yn ystod y flwyddyn. Efallai mai rheswm rhannol dros y diffyg cydgysylltu yw diffyg dealltwriaeth yr Ymddiriedolaeth ynghylch cynlluniau gwaith lleol. Mae cyfarfodydd grŵp cymheiriaid CIC hefyd yn sianel bosibl a allai sicrhau mwy o gydgyssylltu yn y maes hwn.
- 105 Mae angen mwy o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau timau cenedlaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer gwella iechyd a TICLLau er mwyn gwella dealltwriaeth a chynyddu parch y naill at y llall. Yn aml, nid oedd TICLLau yn gwybod pwy oedd yn gweithio ar y rhaglenni gwella iechyd Cymru gyfan amrywiol. Teimlai'r timau'n rhwystredig nad oedd hi'n hawdd cael yr wybodaeth hon, gan ddibynnu yn lle hynny ar gysylltiadau personol, os oedd y rheiny i'w cael.
- 106 Yn gyson ar draws y TICLLau, yr oedd disgwyl i dimau cenedlaethol yr Ymddiriedolaeth ymgysylltu â TICLLau wrth ddatblygu rhaglenni gwella iechyd Cymru gyfan. Teimlai llawer o staff yn y TICLLau y gallai timau cenedlaethol wneud mwy i gydweithio â hwy. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod TICLLau wedi atal ymdrechion gan dimau cenedlaethol i ymgysylltu a rhannu gwaith â TICLLau yn y gorffennol, gan fod TICLLau yn teimlo eu bod eisoes yn gwneud y gwaith hwnnw.
- 107 Roedd gan nifer fach o staff y buom yn cwrdd â hwy brofiad o weithio ar draws timau lleol a chenedlaethol yr Ymddiriedolaeth. Dywedai'r aelodau hynny o staff wrthym fod cydweithwyr a oedd wedi'u lleoli'n genedlaethol yn gochel rhag cysylltu â TICLLau, gan ddweud nad oedd TICLLau yn groesawgar. Roedd TICLLau yr un mor flin am nad oedd yr Ymddiriedolaeth, yn eu tyb hwy, yn cydnabod mentrau llwyddiannus a oedd ar waith yn lleol. Byddai TICLLau yn aml yn cyfeirio at sefyllfaoedd lle'r oedd yr Ymddiriedolaeth yn cymryd mentrau a'u troi'n rhai mewnl, gan eu hawlio fel eu mentrau eu hunain.
- 108 Casglwyd mai arddulliau gwaith arweinwyr corfforaethol yr Ymddiriedolaeth oed wrth wraidd yr amrywio yn llif gwybodaeth. Mae'n bwysig dweud bod eithriadau i hyn, a bod perthnasoedd â thimau cenedlaethol yn cael eu hystyried yn berthnasoedd a oedd yn gwella, yn enwedig lle'r oedd diben cyffredin neu barodrydd i ymgysylltu â TICLLau. Er enghraifft, dywedodd un tîm fod y tîm ymgysylltu o fewn yr Is-adran Sgrinio yn gweithio gyda hwy i wella'r defnydd o wasanaethau sgrinio ar draws eu poblogaeth leol. O ran gwaith gwella iechyd, dywedodd yr holl TICLLau fod ganddynt berthynas waith dda â thîm cenedlaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli tybaco. Ymddengys mai'r hyn sy'n wahanol ynghylch y tîm hwn yw'r ffaith ei fod yn cyfathrebu'n rheolaidd a'i fforwm ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd.
- 109 Yn ôl CTCI diweddaraf yr Ymddiriedolaeth, y mae wedi gwneud trefniadau, mewn partneriaeth â mecanweithiau TICLLau, i'r arweinwyr ym mhob maes ddod ynghyd i drafod blaenoriaethau cyffredin a llywio rhaglenni gwaith ar gyfer pob un o'r, ymddygiadau sy'n niweidio iechyd, fel

ysmygu ac yfed alcohol, Drwy hyn, dylid bod modd ymdrin â llawer o'r pryderon a godwyd gan TICLLau yn ystod ein cyfweiliadau, gan ddarparu dealltwriaeth well o raglenni Cymru gyfan yn enwedig a chreu mecanwaith i arweinwyr â TICLLau gysylltu'r naill a'r llall.

- 110 Oherwydd maint yr Ymddiriedolaeth a gwasgariad daearyddol y staff, ni fydd pobl yn taro ar ei gilydd, ni cheir sgysiau yn y coridor na thrafodaethau anffurfiol' Fodd bynnag, lle ceir elfen o gydleoli, dywedodd y staff fod y trefniadau cyfathrebu a pherthnasoedd gwaith yn gwella. Teimlai TICLLau y gallai'r Ymddiriedolaeth wneud mwy i gydleoli staff a oedd yn gweithio ar raglenni gwella iechyd Cymru gyfan â thimau lleol, fel ffordd o sicrhau gwell cyfathrebu a meithrin ymddiriedolaeth a pharch y naill at y llall.
- 111 Er bod y TICLLau yn cymeradwyo'r gwasanaeth Llyfrgelloedd am ymateb yn gyflym a phrydlon i geisiadau am gymorth, beirniadwyd y swyddogaeth gwybodaeth iechyd, gan fod yr Arsyllfa yn cymryd amser hir i ymateb i geisiadau am ddata a chymorth ar gyfer dadansoddi. Dywedodd TICLLau fod yr Arsyllfa yn darparu gwasanaeth o safon 'aur', ond bod hynny'n golygu nad oedd yn ymateb yn ddigon cyflym. Roedd TICLLau am weld gwasanaeth a oedd yn 'ddigon da'.
- 112 Er gwaethaf y problemau'n gysylltiedig â phrydlondeb, yn ôl y TICLLau mae'r Arsyllfa yn amhrisiadwy ac mae ansawdd ei gynnyrch yn rhoi hygrdedd i'w gwaith. Pan fyddai'r Arsyllfa'n derbyn ceisiadau ad hoc a ystyrir yn fuddiol i'r holl TICLLau, dywedwyd wrthym hefyd y byddai'n creu cynnyrch ar sail ymagwedd 'unwaith i Gymru'. Fodd bynnag, cwynai TICLLau eu bod weithiau'n teimlo wedi'u llethu gan yr holl wybodaeth, ac yr oedd rhai'n teimlo y gallai'r Arsyllfa roi mwy o gefnogaeth i'w dehongli.
- 113 Mae'r Arsyllfa yn gweithredu sawl system er mwyn cyfathrebu â TICLLau. Mae'r rhain yn cynnwys:
- mynychu cyfarfodydd grŵp cymheiriaid CICwyr i rannu eu rhaglen waith a'r data a gynigir fel cynnyrch, gan anelu i gytuno ar flaenoriaethau;
 - un man cyswllt o fewn yr Arsyllfa i bob TICLI; a
 - grŵp cyswllt lle bydd cynrychiolydd TICLI yn bresennol a lle rhennir y cynllun cynnyrch arfaethedig unwaith eto. Dywedodd cynrychiolwyr TICLI ar y grŵp nad oedd ganddynt unrhyw allu gwirioneddol i ddylanwadu ar y gwaith, ond bod y cyfarfodydd yn gyfle i rwydweithio â chydweithwyr o dimau eraill.
- 114 Yr oedd canfyddiad ymhlith rhai TICLLau nad oedd rhaglenni gwaith gwahanol dimau corfforaethol a chenedlaethol yr Ymddiriedolaeth bob amser yn gydgyssylltiedig. Er enghraifft, roedd y staff yn ansicr ynghylch y cysylltiadau rhwng y gwaith ar Ddigwyddiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (DNP) ²¹ a rhaglenni cyfredol ar thema'r blynyddoedd cynnar na'r cysylltiadau rhwng 'Y 1000 Diwrnod Cyntaf' ²² a gwaith DNP. Roedd y diffyg cysylltiad hwn yn achosi dryswch i'r staff, ac er bod TICLLau yn disgrifio'r gwaith yn gysylltiedig â DNP fel gwaith 'rhagorol', nid oedd ganddynt unrhyw syniad sut yr oedd y gwaith hwnnw i ddylanwadu ar eu gwaith lleol.

²¹ www.cymru.nhs.uk

²² www.cymru.nhs.uk

- 115 Dywedodd rhai aelodau na chafwyd digon o gyfathrebu ynghylch penderfyniadau i dynnu buddsoddiadau'n ôl o raglenni penodol, fel rhaglen MEND²³ ar gyfer gordewdra ymhlith plant. Dywedodd TICLLau nad oedd unrhyw gynllun arall wedi cael ei gyflwyno yn lle'r rhaglen. Golygai hyn fod bwlch neu ddiffyg cyfeiriad ynghylch y rhaglenni gordewdra y dylent fod yn eu cyflawni ar gyfer plant a phobl ifanc.
- 116 Mae angen i'r Ymddiriedolaeth a TICLLau reoli sawl perthynas â'r un awdurdod lleol a phartneriaid y trydydd sector. Fodd bynnag, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth na'r TICLLau unrhyw drefniadau i gydgyssylltu'r broses o gyfathrebu neu rannu gwybodaeth â'r partneriaid hyn. Dywedai TICLLau yn aml 'eu bod bob amser yn sathru ar draws cydweithwyr eraill y tu allan i'w tîm, neu'n ystyried bod eraill ar eu tiriogaeth hwy. Dywedai TICLLau fod rhai partneriaid yn cyfeirio at gyfarfodydd neu ddigwyddiadau wedi'u trefnu gan dimau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth nad oeddent hwy yn gwybod amdanynt, Dywedai TICLLau hefyd eu bod yn gorfod 'adfer y sefyllfa' os nad oedd yr Ymddiriedolaeth yn cadw at 'ei haddewidion'. Yn y rhan fwyaf o TICLLau, gwelsom fod aelodau uwch o staff - meddygon ymgynghorol a phrif ymarferwyr - yn rheoli'r berthynas ag awdurdodau lleol unigol ar ran y tîm. Efallai mai un ateb syml er mwyn gwella'r trefniadau cydgysylltu fyddai cael un unigolyn cyswllt ym mhob TICLI y gallai timau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth gysylltu a rhannu gwybodaeth ag ef neu hi.

²³ Mae'r llythrennau yn MEND yn cynrychioli Mind, Exercise, Nutrition, Do it

Atodiad 1

Meysydd a swyddogaethau ymarfer iechyd cyhoeddus

Dangosyn 1: disgrifiad o feysydd a swyddogaethau ymarfer iechyd cyhoeddus

Mae'r tabl isod yn disgrifio meysydd a swyddogaethau ymarfer iechyd cyhoeddus

Disgrifiadau o ymarfer iechyd cyhoeddus	
Gwella iechyd	<ul style="list-style-type: none">Mae'r maes hwn yn cynnwys amrywiaeth o gamau gweithredu i wella iechyd a llesiant poblogaethau lleol a lleihau anghydraddoldeb iechyd, gan gynnwys:<ul style="list-style-type: none">asesu anghenion iechyd a llesiant y boblogaeth leol;datblygu mentrau ac ymyrraethau effeithiol i wella iechyd a llesiant;meithrin partneriaethau strategol; agalluogi a chefnogi cymunedau lleol.
Diogelu iechyd	<ul style="list-style-type: none">Mae'r maes hwn yn cynnwys amrywiaeth eang o weithrediadau, gan gynnwys:<ul style="list-style-type: none">sicrhau effeithiolrwydd rhaglenni imiwneiddio;sicrhau diogelwch ac ansawdd bwyd, dŵr, aer a'r amgylchedd cyffredinol;atal trosglwyddo clefydau trosglwyddadwy;rheoli achosion a'r digwyddiadau eraill sy'n bygwth iechyd cyhoeddus; asicrhau parodrwydd am argyfwng neu ddigwyddiad mawr.
Gofal iechyd ym maes iechyd cyhoeddus	<ul style="list-style-type: none">Mae'r maes hwn yn trafod cynllunio a datblygu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni anghenion y boblogaeth, gan gynnwys:<ul style="list-style-type: none">sicrhau tegwch wrth ddarparu gwasanaethau, llywodraethu clinigol, diogelwch gwasanaethau a gwella ansawdd; agwasanaethau sgrinio er mwyn canfod newidiadau sy'n arwydd o broblemau iechyd penodol.
Gwybodaeth iechyd	<ul style="list-style-type: none">Mae'r swyddogaeth hon y sail i'r tri maes uchod mewn ymarfer iechyd cyhoeddus, ac yn cynnwys:<ul style="list-style-type: none">gwyllo a monitro iechyd y boblogaeth ac asesu penderfynyddion iechyd a llesiant;cymorth ar gyfer ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth; acasesu effeithiolrwydd polisiau, rhaglenni a gwasanaethau.

Ffynhonnell: Y Gyfadran Iechyd Cyhoeddus, [Functions of the local public health system, 2014](#)

Atodiad 2

Swyddogaethau Statudol Iechyd Cyhoeddus Cymru

Nodir pedair swyddogaeth statudol yr Ymddiriedolaeth yng Ngorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu), SI 2009/2058. Dyma nhw:

- darparu a rheoli ystod o wasanaethau iechyd cyhoeddus, diogelu iechyd, gwella gofal iechyd, cynghori ynghylch iechyd, amddiffyn plant, gwasanaethau larbody microbiolegol a gwasanaethau'n gysylltiedig â gwyllo, atal a rheoli clefydau trosglwyddadwy;
- datblygu a chynnal trefniadau i ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig â diogelu a gwella iechyd yng Nghymru i'r cyhoedd; cyflawni a chomisiynu ymchwil i'r materion hynny a chyfrannu at ddarparu a datblygu hyfforddiant ar y materion hynny;
- ymgymryd â chasglu, dadansoddi a lledaenu gwybodaeth mewn modd systematig am iechyd pobl Cymru, gan gynnwys nifer yr achosion o ganser, marwolaethau a chyfraddau goroesi; nifer yr achosion o anomaledau cynhenid; a
- darparu, rheoli, monitro, gwerthuso a chynnal ymchwil i'r trefniadau ar gyfer sgrinio cyflyrau iechyd a sgrinio materion cysylltiedig â iechyd.

Atodiad 3

Iechyd Cyhoeddus Cymru - yr hyn y mae'n ei wneud

Mae'r ffeithlun yn dangos ystod eang y gwaith a gyflawnir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.



Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Atodiad 4

Taflen wybodaeth i gyfranogwyr

Adolygu trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol

Pam ein bod ni'n cynnal yr archwiliad?

Yr Archwilydd Cyffredinol yw gwarchodwr y sector cyhoeddus yng Nghymru, a rhan o'i waith yw archwilio sut mae cyrff y GIG yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus. Staff Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cyflawni'r gwaith hwn ar ran yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r adolygiad o'r trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol yn rhan o raglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio allanol o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn 2015-16, darparwyd dros £9 miliwn o gyllid i dimau iechyd cyhoeddus lleol, sef oddeutu 9% o gyllideb yr Ymddiriedolaeth.

Mae'n bwysig i'r Archwilydd Cyffredinol ei fodloni ei hun fod yr arian hwn yn cael ei wario'n ddoeth. Er mwyn gwneud hyn, mae angen edrych ar y trefniadau cydweithredol ar gyfer gweinyddu'r arian.

Pam ein bod am gwrdd â staff o'r timau iechyd cyhoeddus lleol?

Mae ein harchwiliad yn canolbwyntio ar drefniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu adnoddau iechyd cyhoeddus lleol a rhoi cyfrif am yr adnoddau hynny. Nid ydym yn archwilio gwaith na pherfformiad timau iechyd cyhoeddus lleol.

Er mwyn creu darlun lefel uchel, ffeithiol, o'r modd y mae'r trefniadau cydweithredol cyfredol yn gweithio rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau iechyd lleol, mae angen inni ddeall yr hyn y mae timau iechyd cyhoeddus yn ei wneud â'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn i gyflawni eu gwaith. Wrth gwrdd ag unigolion neu grwpiau o staff, byddwn yn awyddus i drafod nifer o themâu. Dyma'r themâu hynny:

- Rolau a chyfrifoldebau unigol o fewn y tîm; a'r
 - modd y cytunir ar y rolau a'r cyfrifoldebau hyn;
 - faint o gefnogaeth y mae unigolion neu dimau yn ei derbyn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (hy, y canol corfforaethol) i gyflawni'r rolau a'r cyfrifoldebau hyn, neu i gyflawni eu swyddi; a'r
 - gweithgarwch a gyflawnir gan unigolion ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Y rhaglen waith neu'r cynllun gwaith y mae'r tîm yn gyfrifol am ei gyflawni, gan gynnwys y dull o ddatblygu, ariannu, monitro ac adrodd ar y rhaglen neu'r cynllun; a'r
 - graddau y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi, yn goruchwyllo neu'n cyfrannu at raglen waith neu gynllun gwaith y tîm;

- maint y buddsoddiad mewn timau lleol i gyflawni rhaglenni gwaith neu gynlluniau gwaith;
- unrhyw ofynion i adrodd wrth lechyd Cyhoeddus Cymru.
- Amcanion unigol/personol a'r cysylltiad rhwng y rhain a rhaglen/cynllun (g)waith y tîm a'r trefniadau ar gyfer hyfforddi a datblygu; a'r
 - graddau y mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn goruchwylio neu'n cyfrannu at amcanion personol a chynlluniau datblygu personol.
- Lefel y rhyngweithio o ddydd i ddydd rhwng unigolion neu'r tîm a lechyd Cyhoeddus Cymru; a'r
- Mecanweithiau sydd gan unigolion neu dimau i rannu gwaith neu arbenigedd â'r tîm ehangach, timau ieuchyd cyhoeddus lleol eraill neu'n genedlaethol.

Atodiad 5

Ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth

Mae'r tabl yn nodi argymhellion yr adroddiad a'r camau y mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu eu cymryd mewn partneriaeth â system iechyd cyhoeddus i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Mae'r camau gweithredu manwl yn perthyn i dair prif thema: rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd; perthnasoedd; capasiti a gallu'r system.

Gweithredu gwell	Ymateb y Rheolwyr	Arwain	Dyddiad cwblhau
<p>1. Nid yw trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol yn gweithio mor effeithiol ag y dylent.</p> <p>Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod bod a wnelo'r problemau a nodir yn yr adroddiad hwn yn rhannol â materion y mae Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol amdanynt.</p>	<p>1a) Yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dylai LIC sefydlu mecanwaith i ddisgrifio arweinyddiaeth y system iechyd cyhoeddus, gan gynnwys y rolau a'r cyfrifoldebau perthynol ar gyfer y system iechyd cyhoeddus arbenigol, a datblygu opsiynau i'w hystyried gan yr holl gyrff perthnasol ar fodel gweithredol ar gyfer iechyd cyhoeddus arbenigol ar raddfa leol.</p> <p><i>Thema: rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd</i></p>	Llywodraeth Cymru	20 Ebrill 2018
	<p>1b) Yn y cyfamser, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau Iechyd yn cryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer llywodraethu, sicrwydd ac adrodd mewn perthynas â rheoli TICLLau. Bydd fframwaith llywodraethu cyffredinol yn cael ei ddatblygu a fydd yn egluro'r trefniadau atebolrwydd ac adrodd, ac yn gwneud y gorau o'r trefniadau hynny, gan sicrhau y gall Bwrdd Iechyd</p>	Grŵp Gorchwyl a Gorffen a arweinir gan ICC	31 Ionawr 2018

Gweithredu gwell	Ymateb y Rheolwyr	Arwain	Dyddiad cwblhau
	<p>Cyhoeddus Cymru roi cyfrif am ddefnydd priodol o adnoddau iechyd cyhoeddus lleol. Bydd y gwaith yn adeiladu ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth cyfredol ac yn sicrhau bod modd cynllunio trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn arbennig i gyd-fynd ag amgylchiadau lleol.</p> <p><i>Thema: rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd</i></p>		
	<p>1c) Er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o ran rhoi cyfrif am adnoddau iechyd cyhoeddus lleol, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cwrdd â CICwyr Byrddau Iechyd Lleol bob blwyddyn o leiaf. Bydd materion yn cael eu huwchgwyfeirio drwy gyfarfodydd presennol rhwng Pwyllgorau Gwaith ac, yn y dyfodol, rhwng gwahanol Fyrddau.</p> <p><i>Thema: Perthnasoedd</i></p>	Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cylch cyntaf cyfarfodydd ICC/CIC wedi'u cwblhau erbyn 31 Mawrth 2018
<p>2. Parhau i weithio gyda byrddau iechyd drwy'r CICwyr i gytuno ar flaenoriaethau iechyd cyhoeddus y mae angen eu cyflawni ar y cyd, gan gynnwys nodi cyfraniadau unigol at gyflawniadau a chytuno ar y dull o fesur canlyniadau ar y cyd, o fonitro'r canlynadau hynny ac o adrodd amdanynt yn lleol a chenedlaethol.</p>	<p>2) Drwy'r Grŵp Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar drefniadau presennol ac yn sefydlu dull mwy strategol a chynlluniedig, wedi'i alinio â Chynlluniau Tymor Canolig Integredig - gan sicrhau bod pawb yn canolbwyntio ar nifer o flaenoriaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd yr ymagwedd gytunedig yn egluro rolau a chyfrifoldebau, mecanweithiau adrodd; yn cynnwys dulliau cytunedig o fesur cynnyrch a chanlyniadau rhaglenni lleol a chenedlaethol; ac yn cyfrannu at fecanweithiau atebolrwydd sydd wedi'u hail-wampio (1b).</p> <p><i>Thema: rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd</i></p>	Grŵp Cyfarwyddwyr IC	31 Ionawr 2018
<p>3. Datblygu trefniadau effeithiol i ddangos bod ICC yn sicrhau gwerth am arian o'r adnoddau iechyd cyhoeddus arbenigol a ddyrennir i TICLLau.</p>	<p>3a) Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sefydlu mecanwaith tryloyw i gytuno ar ddull o ddsbarthu adnoddau'n deg rhwng TICLLau.</p> <p><i>Thema: Perthnasoedd</i></p>	Iechyd Cyhoeddus Cymru	28 Chwefror 2018
	<p>3b) Bydd ICC yn sefydlu mecanwaith tryloyw ar gyfer mesur gwerth am arian drwy ddefnyddio'r adnoddau hyn, ac adnoddau canolog.</p> <p><i>Thema: Perthnasoedd</i></p>	Iechyd Cyhoeddus Cymru	30 Ebrill 2018

Gweithredu gwell	Ymateb y Rheolwyr	Arwain	Dyddiad cwblhau
<p>4. egluro rolau a chyfrifoldebau timau lleol a chenedlaethol yr Ymddiriedolaeth o ran datblygu a chyflawni rhaglenni gwella iechyd.</p>	<p>4a) Yn rhan o gam gweithredu 1a, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd i egluro rolau a chyfrifoldebau'r naill a'r llall ar gyfer gwella iechyd. Bydd hyn yn cynnwys egluro'r hyn sydd i'w ddatblygu'n genedlaethol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, a'r hyn sydd i'w ddarparu'n lleol gan Fyrddau Iechyd.</p> <p><i>Thema: rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd</i></p>	<p>Llywodraeth Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru Byrddau Iechyd</p>	<p>30 Ebrill 2018</p>
	<p>4b) Wrth ddatblygu a gweithredu ei strategaeth hirdymor, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i sicrhau cymaint o welliannau ag sy'n bosibl ym maes iechyd cyhoeddus.</p> <p><i>Thema: rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd</i></p>	<p>Llywodraeth Cymru ICC Byrddau Iechyd</p>	<p>30 Ebrill 2018</p>
<p>5. Bwrw ymlaen â gwaith i ddatblygu dulliau dibynadwy o ddyrannu adnoddau iechyd cyhoeddus arbenigol i TICLLau a rhanddeiliaid eraill sydd yn trafod ehangder ymarfer iechyd cyhoeddus, gan gynnwys gofal iechyd yn rhan o hynny.</p>	<p>5) Mae dosbarthu adnoddau wedi'i gynnwys yn rhan o gam 3 uchod. I gefnogi cyflawniad 1a, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydweithio â Grŵp Cymheiriaid y Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus i ddiffinio a chytuno ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y rolau priodol ar gyfer gofal iechyd ym maes iechyd cyhoeddus ar raddfa leol • y gefnogaeth/yr adnoddau sydd eu hangen gan ICC • y gefnogaeth/yr adnoddau sydd eu hangen gan y Byrddau Iechyd. <p><i>Thema: rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd</i></p>	<p>Iechyd Cyhoeddus Cymru</p>	<p>28 Chwefror 2018</p>
<p>6. Cytuno ar fecanweithiau priodol ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a TICLLau.</p>	<p>6a) Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn cydweithrediad â CICwyr, yn gwella'r mecanwaith presennol ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn effeithiol ar draws y system iechyd cyhoeddus.</p> <p><i>Thema: Perthnasoedd</i></p>	<p>Iechyd Cyhoeddus Cymru</p>	<p>31 Ionawr 2018</p>
	<p>6b) CICwyr a Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymrwmo i sicrhau bod gan holl staff TICLLau fynediad teg at brosesau datblygu ac ymgysylltu â staff a drefnir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.</p>	<p>ICC a CICwyr</p>	<p>Effaith uniongyrchol</p>

Gweithredu gwell	Ymateb y Rheolwyr	Arwain	Dyddiad cwblhau
	<i>Thema: Capasiti a gallu'r system</i>		
7. Cytuno ar fecanwaith i gynnal trafodaethau cynllunio'r gweithlu ar sail fwy ffurfiol rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r CICwyr.	<p>7a) Bydd Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Trefniadol a Chyfarwyddwyr eraill perthnasol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cwrdd â CICwyr yn rheolaidd i drafod anghenion y gweithlu a'r bylchau sgiliau ar gyfer pob TICLI, yn gyfredol ac yn y tymor canolig.</p> <p><i>Thema: Capasiti a gallu'r system</i></p>	Iechyd Cyhoeddus Cymru	Dechrau erbyn 31 Rhagfyr 2017
	<p>7b) Yn rhan o'r gwaith o ddatblygu strategaeth deng mlynedd ICC, ac yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd ICC yn cydweithredu â CICwyr a TICLlau i ddatblygu a gweithredu cynllun strategol ar gyfer y gweithlu i TICLlau, a chynllun mwy integredig ar gyfer y system iechyd cyhoeddus arbenigol. (Bydd hyn yn cynnwys deall y bylchau cyfredol mewn sgiliau i gyflawni'r cynllun hwnnw ar gyfer y gweithlu.)</p> <p><i>Thema: Capasiti a gallu'r system</i></p>	ICC gyda chefnogaeth CICwyr	31 Ionawr 2018
8. Egluro'r gofynion er mwyn i staff sy'n gweithio o fewn TICLlau allu camu ymlaen yn eu gyrfa, gan gynnwys a yw'n rhagofyniad cael gradd ôl-raddedig ym maes iechyd cyhoeddus.	<p>8) Iechyd Cyhoeddus Cymru i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen pellach gyda CICwyr, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a LIC i ddatblygu a gweithredu rhaglen ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol, i ddatblygu arweinyddiaeth a rheolaeth ac ar gyfer camu ymlaen mewn gyrfa. Bydd hyn yn cynnwys y cymwysterau a'r cofrestrriad proffesiynol sydd eu hangen er mwyn cyflawni rolau arbenigol ym maes iechyd cyhoeddus.</p> <p><i>Thema: Capasiti a gallu'r system</i></p>	ICC gyda chefnogaeth CICwyr	31 Ionawr 2018
9. Egluro'r disgwyliadau i staff sy'n gweithio o fewn TICLlau o ran cofrestru'n wirfoddol ar Gofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU, ac a yw'n ofynnol, neu a ddylai fod yn ofynnol, er mwyn cyflawni rolau neilltuol.	9) Wedi'i gynnwys yn rhan o weithred 7 uchod		

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales